Atal Tân Cymru
Firebrake Wales
Elusen Diogelwch Tân Cymru
The Welsh Fire Safety Charity

Arolwg o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru:
Deall Potensial Partneriaethau a Phartneriaethu

Adroddiad terfynol gan Atal Tân Cymru – Mai 2009

Kim Smith, Richard Hall a Kate Slowinski
Atal Tân Cymru / Firebrake Wales
Mai 2009

Rhagair

Yn ffodus, mae nifer y bobl sy'n dioddef anafiadau a marwolaeth mewn tân yn y cartref wedi gostwng dros y degawdau diwethaf. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r pwyslais cynyddol y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn ei roi ar ddarparu cyngor i gymunedau ynghylch ffyrdd y gallant leihau eu risg o dân, a thrwy osod miloedd o larymau mwg mewn cartrefi trwy Gymru.

Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud eto i atal rhagor o anafiadau a marwolaethau, sy'n dal yn fwy cyffredin ymysg rhai grwpiau o'n cymdeithas, gan gynnwys llawer o bobl sydd dros 60 mlwydd oed. Mae hyn hefyd yn hanfodol er mwyn atal y gost uchel, yn ariannol, sy'n gysylltiedig â difrod oherwydd tân, a'r gost, yn bersonol, pan amherir ar fywydau oherwydd tân yn y cartref.

Dengys tystiolaeth ymchwil fod targedu gweithgarwch diogelwch tân yn well, yn seiliedig ar ffactorau risg penodol, ffordd o fyw, agweddau ac anghenion sydd wedi eu mynegi, yn beth allweddol er mwyn lleihau nifer yr achosion o danau damweiniol mewn cartrefi.

Hefyd, dangoswyd bod cydweithio agosach rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a mudiadau cymunedol sy'n gweithio er mwyn, a gyda, y bobl hynny sydd fwyaf mewn perygl, ar y dasg o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso gweithgarwch atal tân, yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r risg o dân.

Mae Atal Tân Cymru yn falch o weithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cymru wrth hybu camau a fydd yn gwella iechyd, lles a diogelwch pobl sydd dros 60 mlwydd oed yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn nodi enghreifftiau o arferion da lle ceir partneriaethau rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, ac yn hollbwysig, mae'n cynnwys argymhellion ynghylch ffyrdd y gellir ehangu, ymestyn a datblygu'r rhain er mwyn lleihau'r risg o dân i bobl hŷn drwy'r wlad.

Rydym hefyd yn gobeithio y bydd modd defnyddio'r gwersi a ddysgir yn yr adroddiad hwn, nid yn unig wrth ddatblygu mentrau mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a grwpiau cymunedol eraill, ond y bydd hefyd o fudd i sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n gobeithio darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ymchwil, a chynyddu effaith gadarnhaol eu gweithgarwch ar y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth a chydweithrediad staff Gofal a Thrwsio Cymru, y 22 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Diolch hefyd i dîm Atal Tân Cymru, sef Kate Slowinski, ein Cydlynydd Prosiectau a Phartneriaethau, Richard Hall, ein Cydlynydd Polisïau ac Ymchwil, a Kathryn Eveleigh, ein Cydlynydd Gwasanaethau Canolog, am eu hymdrech a'u hymroddiad wrth ymgymryd â'r prosiect hwn.

Edrychwn ymlaen at fwrw ymlaen â'r gwaith gyda'n partneriaid oll yn y dyfodol, a gwneud Cymru yn lle mwy diogel i bawb, a hynny gyda'n gilydd.



Kim Smith
Rif Weithredwr
Atal Tân Cymru
Mehefin 1af 2009

Cynnwys

1. **Cefndir ac Amcanion** ……..4
1.1 Y Partneriaid.....4
1.2 Cefndir.....4
1.3 Nod ac Amcanion.....4
1.3.1 Nod.....4
1.3.2 Amcanion.....5

2. Methodoleg……6
2.1 Data asiantaethol gan Gofal a Thrwsio Cymru.....6
2.2 Arolwg Prif Swyddogion yr Asiantaethau (cyfweliad ar y ffôn).....6

3. Canfyddiadau ……..……8
3.1 Crynodebau Rhanbarthol ……..……8
3.1.1 Rhanbarth y De..... ……8
3.1.2 Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin ……10
3.1.3 Rhanbarth y Gogledd ……..…11
3.2 Arolwg Prif Swyddogion Gofal a Thrwsio – Y Prif Ganfyddiadau a'r Themâu Cyffredin (ar lefel Genedlaethol).....……12
3.2.1 Maint y Cyfle / Parodrwydd yr asiantaethau.....12
3.2.2 Gwahaniaeth / Amrywiad.....12
3.2.3 Cyllid i Asiantaethau ar gyfer cynnal Archwiliadau.....13
3.2.4 Empathi, arbenigedd a gwybodaeth o'r sector.....13
3.2.5 Deunyddiau – darparu a dosbarthu llenyddiaeth diogelwch tân.....14
3.2.6 Deunyddiau – darparu larymau mwg.....15
3.2.7 Ffurfioli.....15
3.2.8 Gallu.....16
3.2.9 Cyfathrebu.....16
3.2.10 Hyfforddiant.....17
3.2.11 Partneriaethau Cyfredol gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub.....18
3.2.12 Rhwydweithiau.....18
3.2.13 Amrywiaeth o ran safbwyntiau/dealltwriaeth o'r risg i gleientiaid o gael tân yn y tŷ, o'i gymharu â risgiau eraill.....18
3.2.14 Cydsyniad.....19
3.2.15 Yr Archwiliad 'Cartref Iach'.....19

4. Casgliadau ac Argymhellion……20
4.1 Angen perthynas agosach a mwy ffurfiol/strwythuredig ar gyfer cydweithio.....20
4.2 Cytuno ar brosesau effeithiol ar gyfer atgyfeirio ac adborth yn dilyn atgyfeiriadau.....21
4.3 Hyfforddiant a Chefnogaeth.....21
4.4 Y diffiniad o 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref'.....22
4.5 Yr Asiantaethau'n gosod larymau mwg a ddarperir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub……22
4.6 Cytgordio'r cyllid a'r cyflenwad offer……23

5. Beth gall Atal Tân Cymru ei ddwyn i'r Bartneriaeth……..24
5.1 Perthynas agosach a mwy ffurfiol/strwythuredig o weithio gyda'n gilydd……24
5.2 Prosesau effeithlon y cytunwyd arnynt ar gyfer atgyfeirio ac adborth am atgyfeiriadau……24
5.3 Hyfforddiant a chefnogaeth……..25
5.4 Cefnogi Ymchwil……25

6. Pwysigrwydd 'gweithio mewn partneriaeth' – tebygrwydd i ganfyddiadau yn Lloegr....26

Atodiadau
Atodiad I: Crynodeb o'r Data Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Gofal a Thrwsio……28
Atodiad II: Cwestiynau draft / Syniadau ar gyfer Mapio'r Drefn gyda Gofal a Thrwsio.....29
Atodiad III: Map Enghreifftiol Drafft o'r Broses Atgyfeirio……32

1. Cefndir ac Amcanion

1.1 Y Partneriaid

Gofal a Thrwsio Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn yng Nghymru gartrefi sy'n ddiogel ac yn briodol i'w hanghenion. Gwneir hyn trwy wrando ar anghenion a dymuniadau pobl hŷn, a mynegi'r wybodaeth hon i'r rhai sy'n llunio polisïau yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn gallu asesu anghenion pobl hŷn trwy'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru.

Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn sicrhau cefnogaeth i'r 22 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio, sy'n lleol ac yn annibynnol, a hynny trwy fframwaith arferion da a pholisïau sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl hŷn o ran tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn gweithio er mwyn, a gyda phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi a rentir yn breifat neu gartrefi sy'n eiddo iddynt hwy. Gweledigaeth y mudiad Gofal a Thrwsio yw "dylai pob person oedrannus yng Nghymru gael cartref cynnes a diogel sy'n cyfarfod â'i anghenion unigol." Mae Gofal a Thrwsio yn holistaidd yn y modd y mae'n galluogi pobl hŷn i wneud penderfyniadau gwybodus, o fewn fframwaith asesu anghenion o ran tai, sydd wedi eu teilwra'n unigol, cynghori a broceriaeth.

Elusen gofrestredig yw **Atal Tân Cymru / Firebrake Wales** sydd â'r nod o leihau nifer yr achosion o farwolaethau ac anafiadau mewn tanau, a hynny trwy godi ymwybyddiaeth o'r risgiau, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hybu ymchwil ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym maes atal tân, ac annog cydweithio rhwng sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a hynny er mwyn gwneud Cymru yn lle mwy diogel.

Mae Atal Tân yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, er mwyn cefnogi mentrau diogelwch tân ledled Cymru, hyrwyddo dull cyson o fynd i'r afael â diogelwch tân, ac annog gweithio mewn partneriaeth rhwng sectorau.

1.2 Cefndir

Roedd Atal Tân Cymru yn ymwybodol fod rhai o'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru eisoes yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Yna, yn Chwefror 2009, cyfarfu Atal Tân â chynrychiolwyr o Gofal a Thrwsio Cymru, i edrych ar ffyrdd i adeiladu ar yr arferion da sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac ehangu ystod ac ansawdd y gweithgarwch atal tân ar y cyd yn y dyfodol.

Sefydlwyd cytundeb partneriaeth rhwng Atal Tân Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru er mwyn galluogi ein dau sefydliad i weithio gyda'n gilydd tuag at nodau cyffredin. Yna, fe ddechreuon ni ar astudiaeth o'r arferion cyfredol er mwyn darparu argymhellion ar gyfer datblygu ymhellach y gweithgarwch ym maes diogelwch tân rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

1.3 Nod ac Amcanion

1.3.1 Nod

Nod yr astudiaeth oedd gweld beth oedd y sefyllfa bresennol o ran yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn 'gweithio mewn partneriaeth' trwy Gymru. Yna, nodi gwybodaeth, syniadau a chyfleoedd i wella diogelwch a lles pobl hŷn trwy ddatblygu

partneriaethau cyflwyno gwasanaethau rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

1.3.2 Amcanion

- Nodi natur y gweithgarwch presennol o ran partneriaeth rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.
- Adnabod gallu a pharodrwydd yr Asiantaethau i ddod yn rhan o waith mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub, a pha rwystrau a chyfleoedd sy'n bodoli mewn perthynas â gweithio'n agosach.
- Darparu argymhellion ac arweiniad, gan adeiladu ar enghreifftiau cyfredol o arferion da, a hynny er mwyn datblygu'r gwaith presennol a gwaith newydd mewn partneriaeth rhwng yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.

2. Methodoleg

Cafwyd y data a'r canfyddiadau sydd yn yr adroddiad hwn mewn dwy ffordd:

2.1 Data asiantaethol gan Gofal a Thrwsio Cymru

Darparwyd y data asiantaethol canlynol gan Gofal a Thrwsio Cymru, a hynny o'u cronfa ddata ganolog.

- Enw person cyswllt ym mhob Asiantaeth – eu henwau, eu swydd o fewn eu Hasiantaeth, rhif ffôn a chyfeiriad ebost.
- Nifer y staff ymhob Asiantaeth.
- Cyfanswm nifer y cleientiaid a wasanaethwyd yn 2008/2009.
- Disgrifiad o'r 'Drefn Lywodraethol' ymhob Asiantaeth (e.e. Rheolir gan Gymdeithas Tai).

2.2 Arolwg Prif Swyddogion yr Asiantaethau (cyfweliad ar y ffôn)

Bu Atal Tân Cymru yn ymgynghori â Gofal a Thrwsio Cymru ynghylch y dull mwyaf priodol i'w ddefnyddio er mwyn deall y ffordd y mae pob Asiantaeth Gofal a Thrwsio unigol yng Nghymru yn gweithio gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub lleol ar hyn o bryd. Cytunwyd y dylid gwneud hyn drwy arolwg o staff allweddol yr Asiantaethau, sef 'Prif Swyddogion' yr Asiantaethau (Cyfarwyddwyr yr Asiantaethau neu Reolwr yr Asiantaethau), ac y dylid cynnal yr arolwg hwn drwy gyfweliad ar y ffôn.

Cytunwyd ar gynllun a chynnwys holiadur yr arolwg mewn ymgynghoriad â Vera Brinkworth (Pennaeth Materion Allanol, Gofal a Thrwsio Cymru). Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y gwaith ymchwil mewn dau gam, gydag ymarferiad 'mapio' yn gyntaf, ac ymchwil helaethach a manylach wedi hynny, wedi ei anelu at gael safbwyntiau a chanfyddiadau staff yr Asiantaethau. Fodd bynnag, penderfynwyd mai mwy priodol, er mwyn osgoi ailgysylltu â staff yr Asiantaethau staff mewn dau gam, fyddai cynnal yr arolwg trwy un cyfweliad mwy manwl. Roedd trefn y cyfweliad yn dilyn holiadur ysgrifenedig (a oedd yn cynnwys cwestiynau penodol i ymdrin â hwy), a hefyd yn cynnwys trefn fwy cyffredinol er mwyn gallu ymdrin â rhestr ehangach o themâu a materion.

Cytunwyd hefyd mai staff Atal Tân ddylai gynnal y cyfweliadau ar y ffôn, yn hytrach na rhoi'r gwaith allan i drydydd parti. Er mwyn goleuo a pharatoi staff yr Asiantaethau cyn yr arolwg, anfonodd Vera Brinkworth gopi o gwestiynau'r arolwg i holl 'Brif Swyddogion' yr Asiantaethau. Roedd yr ebost hefyd yn gofyn i staff yr Asiantaethau ganiatáu digon o amser i lenwi'r arolwg, gan fod y cyfnod eisoes yn brysur oherwydd eu bod wrthi'n symud eu prif system ddata. Y dull a ddefnyddiwyd, felly, oedd cyfweliad manwl gydag amser o flaen llaw, lle'r oedd gan yr ymatebwyr amser i ystyried eu hatebion cyn i rywun gysylltu â hwy ar y ffôn.

Yn hytrach na samplo, roedd yr arolwg yn golygu cysylltu â phob un o'r 22 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru, h.y. 22 o gyfweliadau manwl ar y ffôn rhwng Mawrth 18fed ac Ebrill 28ain.

Aeth staff Atal Tân Cymru, oedd yn ymwneud â'r cyfweliadau ar y ffôn, ati i gynnal y cyfweliad cyntaf gyda'i gilydd er mwyn sefydlu trefn 'safonol', ac er mwyn ceisio osgoi gwahaniaethau wedi hynny o ran y ffordd yr oedd y cyfwelwyr yn mynd ati i gynnal y cyfweliadau.

Fe'i gwnaethpwyd yn glir i'r holl ymatebwyd mai dim ond yr adborth y byddent hwy yn ei ddarparu ynghylch y disgrifiad o'r math o bartneriaeth oedd ganddynt hwy (os o gwbl) gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub, fyddai'n cael ei briodoli iddynt hwy fel Asiantaeth unigol. Byddai pob ateb ac adborth arall yn cael ei gydgrynhoi gydag atebion yr Asiantaethau eraill.

Teimlai staff Atal Tân yn gryf mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ac effeithiol i ddeall yn ansoddol ganfyddiadau staff yr Asiantaethau, o ran y ffordd yr oeddent yn teimlo bod y 'partneriaethau' presennol yn gweithio, yn ogystal â'r hyn y teimlent y gellid gwella arno.

Ni chafodd y cyfweliadau eu recordio gan Atal Tân, ond gwnaethpwyd nodiadau ysgrifenedig yn ystod pob sgwrs. Cafodd y nodiadau hynny eu hysgrifennu'n llawn o fewn 24 awr i'r cyfweliad. Talodd y cyfwelwyr sylw arbennig i gofnodi'r holl atebion yn fanwl-gywir, y cwestiynau uniongyrchol, yn ogystal â'r teimladau, y canfyddiadau a'r ddealltwriaeth a fynegwyd gan y rhai a gyfwelwyd. Wedi cwblhau'r cyfweliadau i gyd, aeth staff Atal Tân ati i edrych ar yr hyn a oedd wedi ei ysgrifennu, er mwyn adnabod y prif ganfyddiadau, ac i grynhoi'r themâu cyffredin oedd yn codi dro ar ôl tro.

Nid yw'r 'Prif Ganfyddiadau a'r 'Themâu Cyffredin' a luniwyd wedi hynny (ac a restrir ymhellach yn yr adroddiad hwn) o reidrwydd yn cynrychioli'r sefyllfa *ymhob* Asiantaeth neu farn y Prif Swyddog *ymhob* Asiantaeth. Fodd bynnag, mae eu cynnwys wedi ei seilio ar ddigon o achosion neu eu bod yn ddigon cyffredin i awgrymu tueddiad clir a allai, yn ei dro, gefnogi casgliad neu argymhelliad ar gyfer gweithredu pellach.

Gwnaeth Atal Tân bob ymdrech i sicrhau nad oedd yr ymatebwyr yn teimlo mai'r Gwasanaethau Tân ac Achub eu hunain oedd yn cynnal y cyfweliadau. Fodd bynnag, ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai dyna oedd canfyddiad rhai o'r ymatebwyr, ac felly gallai hynny fod wedi effeithio ar rai o'r atebion a gafwyd. Er hynny, roedd staff Atal Tân a fu'n cynnal y cyfweliadau, wedi eu calonogi gan mor agored a gonest oedd yr atebion a gafwyd, a'r parodrwydd cyffredinol a oedd ymhlith staff Asiantaethau Gofal a Thrwsio i gymryd rhan yn llawn yn yr arolwg.

Mae'r data a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Cymru, ynghyd â chanfyddiadau arolygon Prif Swyddogion yr Asiantaethau, i'w cael yn yr adran Canfyddiadau, isod.

3. Canfyddiadau

3.1 Crynodebau Rhanbarthol

3.1.1 Rhanbarth De Cymru

Rhanbarth	Enw'r Asiantaeth	Cyswllt	Swydd	Llywodraethu	Partn. Bresennol gyda'r Gwas. Tân	Maint yr Asiantaeth (cleientiaid) *	Cyfans wm y Staff
Y De							
1	Blaenau Gwent	Sally Rivers	Prif Swyddog	Cym. Dd a D	B	1075	14
2	Pen-y-bont ar Ogwr	Rena Sweeney	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym. Dd a D	B	1877	20
3	Caerffili	Pat Jones	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	B	1157	9
4	Caerdydd	Richard Thomas	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	D	1818	22
5	Casnewydd	Phillip Arnold	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	1719	10
6	Rhondda Cynon Taf	Sylvia Cooper	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	3261	18
7	Torfaen	Nicola Maule	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	1181	6
8	Merthyr	Ann Lewis	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	A	714	11
9	Sir Fynwy	Shona Martin	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	1515	12
10	Bro Morgannwg	Janet Salter	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	D	1640	9

Allwedd: *Partneriaeth bresennol gyda'r Gwas.Tân* = Y ffordd y mae'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio'n cydweithio â'u Gwasanaethau tân ac Achub

A Staff yr Asiantaeth yn darparu taflenni i gleientiaid ac yn ei annog i drefnu i gael Archwiliad neu i gael rhagor o wybodaeth gan y Gwas Tân.

B Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas.Tân, a fydd wedyn yn darparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau eu hunain.

C Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas. Tân, ac yna Staff yr Asiantaeth a'r Gwas. Tân yn cyfarfod cleientiaid ar y cyd i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau.

CH Staff yr Asiantaeth angen arweiniaid a/neu hyfforddiant gan y Gwas. Tân, yn trosglwyddo gwybodaeth gan y Gwas. Tân, ac yn cynnal Archwiliadau (yn cynnwys gosod larymau mwg)

D Math arall o drefniant

Caerdydd = yr asiantaeth yn gosod larymau mwg, ond yn atgyfeirio achosion mwy 'cymhleth' i Was. Tân y De e.e. pobl â nam ar eu clyw

Bro Morgannwg = yr asiantaeth yn gosod larymau mwg a ddarperir gan Was. Tân y De, ond nid ydynt yn atgyfeirio unrhyw achosion

Trefn lywodraethol: **Cym Dd a D** – Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus **Cym. Tai** – Cymdeithas Tai **Is-g. Annib.** – Is-gwmni annibynnol

**Cafwyd o adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn (2008/09) a ddarparwyd i Gofal a Thrwsio Cymru gan bob Asiantaeth, ac a gasglwyd ac yr adroddwyd yn eu cylch i Lywodraeth y Cynulliad.*

Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y De yn darparu gwasanaethau sicrwydd argyfyngol ac atal tân i ardal ddaearyddol eang, sydd dros 1,000 o filltiroedd sgwâr. Mae'n ymestyn o Gas-gwent yn y dwyrain, i Borthcawl yn y gorllewin, ac o'r Fenni yn y gogledd, i lawr i'r arfordir. Mae'n cynnwys tua 1,800 o aelodau o staff, ac mae'n gwasanaethu poblogaeth sydd bron yn 1.4 miliwn o bobl. Mae 50 o orsafoedd gan y Gwasanaeth, yn dilyn gwahanol systemau criwio[1].

Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Mae 10 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub y De, sef y nifer uchaf yn yr un o dri rhanbarth y Gwasanaethau Tân.

[1] http://www.southwales-fire.gov.uk/Cymraeg/cysylltwchani/bleydynni/Fire_Stations/Pages/default.aspx

Nododd yr arolwg mai'r sefyllfa bresennol o ran gweithio mewn partneriaeth yw:

'A' = 1 'B' = 7 'D' = 2

Rhanbarth y De – Y Ffeithiau Allweddol:

- Mae pob Asiantaeth ar hyn o bryd yn gwirio a oes larymau mwg yng nghartrefi cleientiaid. O'r rheini, mae 7 yn atgyfeirio i Wasanaeth Tân ac Achub y De. Mae'r 3 arall yn gosod larymau mwg, ond nid o reidrwydd yn cynnal Archwiliad Diogelwch Tân.
- Dywedodd 9 o'r 10 y byddent yn croesawu rhagor o hyfforddiant.
- Mae gan hanner yr Asiantaethau enw cyswllt penodol, ond yn 2 o'r rheini, dim ond ar gyfer atgyfeiriadau y maent.
- Byddai hanner yr asiantaethau'n ystyried cynnal yr Archwiliadau, ond byddai hynny'n ddibynnol ar gyllid.

3.1.2 Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin

Rhanbarth	Enw'r Asiantaeth	Cyswllt	Swydd	Llywodraethu	Partn. Bresennol gyda'r Gwas. Tân	Maint yr Asiantaeth (cleientiaid) *	Cyfans wm y Staff
Y Canolbarth a'r Gorllewin							
1	Sir Gâr	Mark Warren	Rheolwr yr Asiant.	Cym Dd a D	B	748	10
2	Ceredigion	Dafydd Pugh-Jones	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	CH	570	12
3	Sir Benfro	Tina Mills	Rheolwr yr Asiant.	Is-g. Annib.	B	1367	10
4	Powys	Sally Davison	Cyfarwydd. yr Asiant.	Is-g. Annib.	B	1223	18
5	Castell-nedd Port Talbot	Bernard Cooper	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	B	1519	24
6	Abertawe	Maggie Berrry	Cyfarwydd yr Asiant.	Cym Dd a D	B	3153	19

Allwedd: *Partneriaeth bresennol gyda'r Gwas.Tân* = Y ffordd y mae'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio'n cydweithio â'u Gwasanaethau tân ac Achub

A Staff yr Asiantaeth yn darparu taflenni i gleientiaid ac yn ei annog i drefnu i gael Archwiliad neu i gael rhagor o wybodaeth gan y Gwas Tân.

B Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas.Tân, a fydd wedyn yn darparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau eu hunain.

C Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas. Tân, ac yna Staff yr Asiantaeth a'r Gwas. Tân yn cyfarfod cleientiaid ar y cyd i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau.

CH Staff yr Asiantaeth angen arweiniaid a/neu hyfforddiant gan y Gwas. Tân, yn trosglwyddo gwybodaeth gan y Gwas. Tân, ac yn cynnal Archwiliadau (yn cynnwys gosod larymau mwg)

D Math arall o drefniant

Llywodraethu: **Cym Dd a D** – Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus **Cym. Tai** – Cymdeithas Tai **Is-g. Annib.** – Is-gwmni annibynnol

**Cafwyd o adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn (2008/09) a ddarparwyd i Gofal a Thrwsio Cymru gan bob Asiantaeth, ac a gasglwyd ac yr adroddwyd yn eu cylch i Lywodraeth y Cynulliad.*

Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn gwasanaethu dros 4,500 o filltiroedd sgwâr, sef bron i ddau draean o dir Cymru. Mae'r Gwasanaeth wedi ei rannu yn chwe ardal sirol, i gyd-fynd ag ardaloedd yr awdurdodau unedol sef Castell-nedd a Phort Talbot, Ceredigion, Dinas a Sir Abertawe, Powys, Sir Benfro, a Sir Gâr. Mae'r Pencadlys canolog yng Nghaerfyrddin, ac mae'r Pencadlys Diogelwch Tân yn Nhreforys, Abertawe. Mae gan y rhanbarth 57 o orsafoedd[2].

Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Mae 6 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin. Nododd yr arolwg mai'r sefyllfa bresennol o ran gweithio mewn partneriaeth yw:

'B' = 5 'Ch' = 1

Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin – Y Ffeithiau Allweddol:

- Mae gan 5 o'r 6 Asiantaeth enw cyswllt yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Mae 5 o'r 6 yn cael caniatâd gan gleientiaid, ac yn eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gael Archwiliad Diogelwch Tân. Fodd bynnag, dim ond 1 o'r rheini sy'n cael gwybod pan fo Archwiliad wedi ei gynnal. Byddai'r 4 arall yn ystyried y byddai cael gwybod yn beth angenrheidiol ac yn gam cadarnhaol.
- Ar hyn o bryd, mae un Asiantaeth yn cynnal yr Archwiliad ar ran y Gwasanaeth Tân ac Achub (categori Ch). Fodd bynnag, mae 2 Asiantaeth wedi symud o gategori Ch i gategori B.
- Nid oes gan 4 o'r Asiantaethau drefniadau ffurfiol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Byddai un Asiantaeth yn ystyried symud i gategori CH.

[2] Source: http://www.mawwfire.gov.uk/about_cym/organisation.asp

3.1.3 Rhanbarth y Gogledd

Rhanbarth	Enw'r Asiantaeth	Cyswllt	Swydd	Llywodraethu	Partn. Bresennol gyda'r Gwas. Tân	Maint yr Asiantaeth (cleientiaid) *	Cyfanswm y Staff
Y Gogledd							
1	Sir y Fflint	Geraint Humphreys	Cyd-lynydd y Gwasanaeth	Cym Dd a D	B	1648	10
2	Gwynedd	Elfyn Owen	Rheolwr yr Asiant.	Is-g. Annib.	CH	1657	18
3	Wrecsam	Yvonne Jones	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	2368	8
4	Ynys Môn	Ceri Thomas	Cyd-lynydd y Gwas.	Is-g. Annib.	D	1376	11
5	Sir Ddinbych	Lynda Colwell	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	B	829	7
6	Conwy	Nicola Eccles	Cyd-lynydd y Gwas.	Rheolir gan G a Th	B	591	7

Allwedd: *Partneriaeth bresennol gyda'r Gwas.Tân* = Y ffordd y mae'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio'n cydweithio â'u Gwasanaethau tân ac Achub

A Staff yr Asiantaeth yn darparu taflenni i gleientiaid ac yn ei annog i drefnu i gael Archwiliad neu i gael rhagor o wybodaeth gan y Gwas Tân.

B Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas.Tân, a fydd wedyn yn darparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau eu hunain.

C Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas. Tân, ac yna Staff yr Asiantaeth a'r Gwas. Tân yn cyfarfod cleientiaid ar y cyd i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau.

CH Staff yr Asiantaeth angen arweiniaid a/neu hyfforddiant gan y Gwas. Tân, yn trosglwyddo gwybodaeth gan y Gwas. Tân, ac yn cynnal Archwiliadau (yn cynnwys gosod larymau mwg)

D Math arall o drefniant

Ynys Môn = yr asiantaeth yn atgyfeirio i sefydliad arall (Canolfan Mona), a fydd yn cynnal yr Archwiliad ac yn adrodd yn ôl i Was. Tân y Gogledd

Llywodraethu: **Cym Dd a D** – Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus **Cym. Tai** – Cymdeithas Tai **Is-g. Annib.** – Is-gwmni annibynnol

**Cafwyd o adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn (2008/09) a ddarparwyd i Gofal a Thrwsio Cymru gan bob Asiantaeth, ac a gasglwyd ac yr adroddwyd yn eu cylch i Lywodraeth y Cynulliad.*

Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd yn cynorthwyo i amddiffyn poblogaeth sydd tua 670,000 o bobl mewn ardal sydd yn 2,400 o filltiroedd sgwâr, yn ogystal â channoedd o filoedd o dwristiaid ac ymwelwyr sy'n dod i ogledd Cymru bob blwyddyn. Mae dros 280,000 o eiddo domestig, a mwy na 26,000 o eiddo annomestig, yn ardal y Gogledd dan ei ofal. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi dros 1000 o aelodau o staff mewn swyddi ar yr ochr weithredol a'r ochr gefnogol[3].

Asiantaethau Gofal a Thrwsio

Mae 5 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub y Gogledd. Nododd yr arolwg mai'r sefyllfa bresennol o ran gweithio mewn partneriaeth yw:

'B' = 4 CH' = 1 'D' = 1

Rhanbarth Gogledd Cymru – Y Ffeithiau Allweddol:

- Mae pob Asiantaeth yn gwirio a oes larymau mwg yng nghartrefi cleientiaid. Mae 5 o'r rheini'n atgyfeirio ynghylch Archwiliadau. Fodd bynnag, mae un o'r rhain yn atgyfeirio i sefydliad gwahanol i Wasanaeth Tân ac Achub y Gogledd.
- Nid oes gan yr un o'r 6 drefniadau ffurfiol.
- O'r 4 sy'n atgyfeirio i'r Gwasanaeth, mae gan 4 enw cyswllt penodol yn y Gwasanaeth, ac mae 1 yn cael gwybod yn awtomatig pan fo Archwiliad wedi ei gynnal.
- Mae 4 Asiantaeth yn teimlo y byddent yn gallu ymestyn i bartneriaeth i gategori Ch, h.y. cynnal yr Archwiliadau ar ran y Gwasanaeth.

[3] Source: http://www.gwastan-gogcymru.org.uk/page.asp?page=7

3.2 Arolwg Prif Swyddogion Gofal a Thrwsio – Y Prif Ganfyddiadau a'r Themâu Cyffredin (ar lefel Genedlaethol)

3.2.1 Maint y Cyfle / Parodrwydd yr asiantaethau

Mae Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn gweithredu ym mhob un o'r 22 o ardaloedd yr Awdurdodau Unedol yng Nghymru. Y llynedd, gyda'i gilydd, fe gyrhaeddodd y 22 Asiantaeth dros 30,000 o wahanol gleientiaid yng Nghymru[4]. Felly, nid yn unig y mae'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn ymestyn drwy Gymru gyfan, mae hefyd yn gwasanaethu anghenion nifer sylweddol o bobl hŷn a bregus y genedl, - sef grŵp demograffig sydd eisoes wedi ei adnabod yn darged allweddol ar gyfer ymyrraeth diogelwch tân gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.

Trwy gydol y broses o gynnal yr arolwg, roedd cyfwelwyr Atal Tân o'r farn fod y Prif Swyddogion yn croesawu'r cyfle i drafod pynciau'r arolwg gydag Atal Tân. Roeddent yn agored wrth drafod y sefyllfa bresennol o ran gweithio mewn partneriaeth gyda'u Gwasanaethau Tân ac Achub, ac yn adeiladol wrth awgrymu sut y gellid gwella rhai o'r ffyrdd presennol o weithio.

Tra'r oedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn fodlon i ryw raddau â'r lefel bresennol o weithio mewn partneriaeth gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub lleol, roedd pob un ohonynt bron yn teimlo y gellid gwella'r bartneriaeth hon mewn rhyw ffordd. Yn ystod y cyfweliadau, dangosodd Prif Swyddogion Gofal a Thrwsio barodrwydd llwyr i ystyried ffyrdd newydd i weithio mewn partneriaeth, a pharodrwydd i staff yr Asiantaeth gael a/neu loywi eu gwybodaeth o beryglon tân, pa beth bynnag oedd y trefniant presennol neu'r trefniant yn y dyfodol o ran gweithio mewn partneriaeth.

Mewn nifer o gyfweliadau, cafodd hyn ei gyfleu trwy werthfawrogiad y byddai cael neu wella gwybodaeth ynghylch peryglon tân, nid yn unig o fudd i staff Gofal a Thrwsio, ond hefyd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'w cleientiaid. Cafodd y pwynt hwn ei fynegi'n uniongyrchol gan sawl Prif Swyddog, a oedd yn pwysleisio bod diogelwch eu cleientiaid o'r pwys mwyaf.

3.2.2 Gwahaniaeth / Amrywiad

C&R Cymru yw'r corff cenedlaethol sy'n bodoli i gefnogi'r 22 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Cawsant eu sefydlu gan y Swyddfa Gymreig yn 1991, gyda'r cylch gwaith i ddatblygu gwaith mudiad C&R yng Nghymru. C&R Cymru yw'r sefydliad ambarél sy'n darparu cefnogaeth i'r Asiantaethau trwy amryw o ffyrdd, megis anfon gwybodaeth allan yn rheolaidd, fforymau polisïau a monitro perfformiad. Maent yn bodoli'n fwy ar gyfer cynghori/cefnogi yn hytrach na rheoli.

Dylid nodi bod pob Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru *ar wahân* o ran ei annibyniaeth, a hefyd yn *unigryw* o ran y ffactorau a ganlyn:

- ***Niferoedd staff*** - Mae niferoedd y staff (llawn amser a rhan amser) yn amrywio'n fawr rhwng yr Asiantaethau. Ar hyn o bryd, mae'r Asiantaethau llai yn cyflogi cyn lleied â 6 aelod o staff, tra bo gan yr Asiantaethau gymaint â 22 o aelodau.
- ***Cymysgedd o staff*** – Nid oes gan rai Asiantaethau yr un Tasgmon, mae gan rai fwy o Weithwyr Achos na'r lleill, ac yn rhai o'r Asiantaethau, mae staff yn cael eu secondio o sefydliadau eraill.
- ***Trefn lywodraethol*** – Mae'r Asiantaethau'n cael eu llywodraethu mewn amrywiaeth o ffyrdd; mae rhai'n cael eu llywodraethu gan Gymdeithas Tai, mae rhai yn Is-gwmnïau annibynnol, mae rhai yn Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, a dim ond un sy'n cael ei llywodraethu gan Gofal a Thrwsio Cymru.

[4]Cafwyd o adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn (2008/09) a ddarparwyd i Gofal a Thrwsio Cymru gan bob Asiantaeth, ac a gasglwyd ac yr adroddwyd yn eu cylch i Lywodraeth y Cynulliad..

- ***Nifer y 'cleientiaid' a wasanaethir*** – mae'r nifer yn amrywio'n ddramatig drwy Gymru, ac ar hyn o bryd yn amrywio o 591 i 3261 o gleientiaid.
- *Ariannu* – mae nifer fechan o asiantaethau eisoes yn derbyn cyllid gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub lleol i gynnal Archwiliadau.
- *Darparu gwasanaeth 'Ymateb Cyflym'* – dyma wasanaeth ar wahân, sy'n cael ei ddarparu gan yr holl Asiantaethau, ac mae'n ymwneud ag addasu cartrefi er mwyn galluogi i gleientiaid gael eu rhyddhau o'r ysbyty'n gynnar. Yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio sy'n ei ddarparu, a hynny ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

Ni ellir gorbwysleisio'r gwahaniaethau yn yr elfennau hyn, o ran y goblygiadau i allu pob Asiantaeth i gynyddu baich gwaith ychwanegol i'w staff.

Er na ofynnwyd hyn yn uniongyrchol yn yr ymarferiad hwn, ni fyddai'n afresymol tybio bod gan *wahaniaethau daearyddol* rywbeth i'w wneud â gallu pob Asiantaeth i wasanaethu eu cleientiaid. Hynny yw, byddai'r amser teithio i staff ymweld â chartrefi mewn ardaloedd mwy gwledig yn debygol o fod yn fwy nag mewn ardaloedd llai gwledig.

Y prif wahaniaeth a ddaeth yn amlwg iawn oedd nad oes gan yr un Asiantaeth union yr un berthynas gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol â'r un Asiantaeth arall. Mae hyn yn wir o fewn rhanbarthau unigol, a hyd yn oed wrth gymharu Asiantaethau sy'n ffinio â'i gilydd.

Ni ellir gwneud casgliad syml mai'r gwahaniaethau uchod sy'n gyfrifol am y mathau gwahanol o berthynas sy'n bodoli rhwng yr Asiantaethau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, rhaid cadw'r gwahaniaethau hyn mewn cof cyn gwneud unrhyw ragdybiaethau am drefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

3.2.3 Cyllid i Asiantaethau ar gyfer cynnal Archwiliadau

Mae rhai Asiantaethau yn derbyn cyllid gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub lleol ar gyfer cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Yn yr achosion prin hynny lle darperir cyllid, caiff ei ystyried yn beth 'achlysurol', a hynny oherwydd bod y ffynhonnell arian yn cael ei weld yn amodol ar p'un ai oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub gyllideb benodol ar gyfer 'cyllid allanol' ar ryw adeg neu'i gilydd. Dyna'r gred yn yr Asiantaethau lle cafodd cyllid ei ddarparu ar un adeg gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond ei fod wedi dod i ben ers hynny.

Soniodd rhai Asiantaethau eraill y byddent yn ystyried cynnal rhagor o waith diogelwch tân yn y cartref (e.e. cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân), neu 'gynyddu' eu partneriaeth gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub lleol petai rhagor o gyllid yn cael ei ddarparu ar eu cyfer

Gan na thybid bod hynny o fewn cwmpas yr arolwg hwn, ni holodd y cyfwelwyr pa lefel o gyllid a ddarperir ar hyn o bryd, neu, o ran yr Asiantaeth hynny nad oedd yn derbyn cyllid, pa lefel o gyllid fyddai'n angenrheidiol i wneud hyn yn bosib iddynt.

3.2.4 Empathi, arbenigedd a gwybodaeth o'r sector

Yr hyn a oedd yn gyffredinol amlwg o'r cyfweliadau hyn oedd yr empathi gwirioneddol oedd gan y Prif Swyddogion at eu cleientiaid. Tra bo disgwyl efallai i Brif Swyddogion yr Asiantaeth fod eisiau cyfleu 'ethos' Gofal a Thrwsio mewn sgyrsiau fel y cyfweliadau hyn, roedd y cyfwelwyr wedi cael argraff fawr fod y teimladau hyn yn rhai gwirioneddol. Roedd yr arddull a'r iaith a ddefnyddid gan y Prif Swyddogion, wrth siarad am gleientiaid, yn wir yn sôn am 'unigolion'; yr awydd i fynd i'r afael â'u 'hanghenion penodol' gyda chefnogaeth, a 'theilwra' y gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion penodol yr unigolyn.

Roedd yn amlwg yn ystod y broses gyfweld y byddai staff yr Asiantaethau'n ymweld â chleientiaid am ryw un rheswm arbennig (e.e. tasgmon yn ymweld i roi canllaw yn ei le) ond yn sylwi, tra'r oedd yno, ar faterion neu anghenion eraill - neu'r cleientiaid eu hunain yn holi am wasanaethau eraill yr Asiantaeth. Fel hyn, roedd y gwasanaeth a gynigid yn holistaidd ac yn bwrpasol. Fodd bynnag, er eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth mor ymatebol/deinamig, roedd nifer o'r Prif Swyddogion yn sôn am bwysigrwydd peidio â bod yn 'ymwthgar'. Maent yn sensitif i ofynion eu cleientiaid, ac ni fyddant yn cymryd fod y cleientiaid yn dymuno derbyn pob un o wasanaethau Gofal a Thrwsio.

Yn ogystal â'r lefel uchel o wybodaeth ac empathi tuag at eu cleientiaid, roedd nifer o'r Asiantaethau'n sôn am 'ddiogelu' eu cleientiaid. Roedd y sylwadau hyn yn gysylltiedig â'r ymddiriedaeth y mae cleientiaid yn ei roi yn staff Gofal a Thrwsio.

Mewn nifer fechan o achosion, mynegodd rhai Prif Swyddogion nad oedd cleientiaid, yn eu tyb hwy, yn gwerthfawrogi dulliau 'amlasiantaethol', neu eu bod yn ofnus o hynny. Awgrymodd y Prif Swyddogion yn benodol y byddai eu cleientiaid yn gyndyn o adael staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i'w cartrefi i gynnal Archwiliad Diogelwch Tân, ac mai yn Gofal a Thrwsio y byddid yn ymddiried orau i osod larymau mwg. Dylid nodi mai lleiafrif oedd yr asiantaethau a fynegodd y farn hon.

Tra'r oedd Prif Swyddogion yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio'n llwyr gydnabod arbenigedd eu cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn diogelwch tân, roeddent yn cydnabod eu bod hwy'n darparu gwasanaeth ehangach i'w cleientiaid. Hynny yw, mae angen iddynt weld ac asesu'r 'darlun mawr' o beryglon yng nghartrefi'r cleientiaid. Nid yw'r rhain wedi eu cyfyngu i beryglon tân yn unig, ac felly mae angen i staff yr Asiantaethau fod yn ystyriol o bob math o beryglon a allai effeithio ar iechyd a lles eu cleientiaid, yn ogystal â gallu'r cleientiaid i reoli eu risg eu hunain. Mae gofyn i'r staff fod yn wybodus mewn sawl maes, yn cynnwys effeithlonrwydd ynni a'r budd-daliadau perthnasol sydd ar gael, ynghyd â deall y mesurau cynnal a chadw yn y cartref sydd eu hangen er mwyn lliniaru'r perygl o lithro, baglu neu ddisgyn yng nghartrefi'r cleientiaid.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir, felly, yn fwy o lawer nag asesu a mynd i'r afael â'r ffactorau risg yng nghartrefi'r cleientiaid. Maent hefyd yn cynnig gwybodaeth, arbenigedd a chymorth ymarferol ym maes *diogelwch*, *cysur* a *chyfleustra*. Yn gryno, maent yn darparu gwasanaeth eang, gan alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain, gan fyw mor annibynnol â phosib.

3.2.5 Deunyddiau – darparu a dosbarthu llenyddiaeth diogelwch tân

Mae'r rhan fwyaf o'r Asiantaethau, yn ôl yr arfer, yn dosbarthu pecynnau gwybodaeth i'w cleientiaid yn dilyn, neu yn ystod, ymweliad â'u cartrefi. Mae rhai Asiantaethau'n cynnwys deunyddiau papur yn ymwneud â diogelwch tân yn y cartref yn y pecynnau y maent yn eu rhoi i'w cleientiaid. Mae'r rhan fwyaf o'r Asiantaethau sy'n eu cynnwys yn eu pecynnau i gleientiaid, yn ystyried y llenyddiaeth diogelwch tân yn beth buddiol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'r cyflenwad o'r deunyddiau papur hyn am ddiogelwch tân yn cael ei nodweddu gan:

- ***Diffyg eglurder ynghylch y ddarpariaeth wreiddiol.*** Yn aml, mae'r Asiantaethau wedi derbyn nifer fawr o lenyddiaeth gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub lleol. Mewn rhai achosion, darparwyd y rhain i'r Asiantaeth yn ystod digwyddiadau neu fforymau lle'r oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cefnogi'r Asiantaeth, e.e. 'Wythnos Gofal a Thrwsio'.
- ***Diffyg eglurder ynghylch y broses o ail-archebu.*** Mewn rhai achosion, nid oedd yr Asiantaethau'n sicr sut i fynd ati i gael rhagor o daflenni/llenyddiaeth. Naill ai nad oeddent yn sicr â phwy i gysylltu, neu nad oeddent yn gallu cysylltu â'r aelod priodol o'r staff o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub i holi am hynny.
- ***Amrywiaeth fawr yn y math o daflenni sy'n cael eu cyflenwi.*** Roedd gan y rhan fwyaf o'r Asiantaethau ryw fath o daflen 'diogelwch tân' i'w dosbarthu i gleientiaid, ond roedd

cynnwys y taflenni hyn yn amrywio o un Asiantaeth i'r llall. Y taflenni mwyaf cyffredin oedd rhai am 'Ddiogelwch Tân yn y Cartref', neu daflenni'n benodol am y gwasanaeth Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth fawr o daflenni eraill yn cael eu defnyddio (e.e. coginio/defnyddio sosbenni saim, ysmygu, cynllunio llwybr dianc ayyb). Yn bennaf, rhai 'Fflach Tân' oedd y taflenni a ddefnyddid.

- ***Rhywfaint o amrywiad yn oedran y taflenni.*** Roedd y rhan fwyaf o'r Asiantaethau, oedd yn darparu taflenni Diogelwch Tân, yn defnyddio'r fersiynau diwethaf (mwyaf diweddar) o'r deunyddiau Fflach Tân (y rhai coch). Fodd bynnag, roedd o leiaf un Asiantaeth yn defnyddio'r rhai blaenorol (y rhai du).

Roedd yr Asiantaethau oedd yn dosbarthu taflenni diogelwch tân, ynghyd â'r rhai nad oedd, yn cytuno drwyddi draw fod rhyw fath o daflen diogelwch tân o fudd i'w cleientiaid. Fodd bynnag, roedd llawer am beidio â llethu eu cleientiaid â gormodedd o daflenni. Roedd rhai o'r Prif Swyddogion yn sôn am ddymuno gwarchod eu cleientiaid rhag 'peledu' gormod o wybodaeth atynt (h.y. bod hyn yn ymwthgar), tra'r oedd eraill yn ofni y byddai'n arwain at sefyllfa lle na fuasai'r un daflen yn cael ei darllen ('llethol', 'peri dryswch', 'colli effaith', 'fel llythyrau sothach').

Awgrymodd llawer o'r Prif Swyddogion mai'r ateb gorau fyddai un daflen diogelwch tân yn ymdrin â'r prif bwyntiau diogelwch tân ar gyfer eu cleientiaid - ond y byddai angen iddi fod yn briodol i'r cleientiaid, h.y. yn hawdd ei deall (yn defnyddio 'iaith glir'); yn hawdd ei darllen (y ffontiau'n fawr, y diagramau'n glir); yn berthnasol ac yn cynnig arweiniad ymarferol cam-wrth-gam (e.e. y drefn cyn noswylio/rhestr wirio); dim yn peri gormod o ddychryn (yn annog ffyrdd i fod yn ddiogel, dim delweddau dramatig o'r hyn allai ddigwydd).

3.2.6 Deunyddiau – darparu larymau mwg

Roedd llawer o'r Asiantaethau sy'n gosod larymau mwg eu hunain yn gwneud hynny gan ddefnyddio larymau a ddarperir gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub lleol. Eto, fel yn achos darparu deunyddiau diogelwch tân ar bapur, roedd y ddarpariaeth larymau mwg yn ymddangos yn beth achlysurol, anghyson ac, mae'n debyg, heb ei gydlynu. Gyda staff yr Asiantaethau'n disgrifio diffyg eglurder mewn perthynas ag ail-archebu rhagor o larymau mwg; at bwy y dylent fynd, a phryd.

3.2.7 Ffurfioli

Prin, os o gwbl, o'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yw'r rhai sydd â threfniadau ffurfiol gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub lleol. Yn ogystal â'r diffyg cyffredinol o drefniadau o fath 'cytundeb' ffurfiol, mae presenoldeb cytundeb anffurfiol yn dibynnu'n llwyr ar yr unigolion dan sylw. Wrth i unigolion ymuno â'r naill sefydliad, neu adael, felly hefyd y mae'r trefniadau anffurfiol yn gallu diflannu.

Mae nifer o'r Asiantaethau bellach yn y sefyllfa hon, ond maent yn awyddus iawn i adsefydlu trefniant partneriaeth. Dywedodd un iddynt gynnwys y bartneriaeth benodol hon yn eu cynllun busnes am y flwyddyn.

Roedd ambell un o'r Asiantaethau'n wyliadwrus o ffurfioli partneriaethau, gan eu bod o'r farn fod y bartneriaeth bresennol yn gweithio'n iawn, er eu bod yn gweld y manteision o ran ffurfioli prosesau, cysylltiadau ac adrodd.

Felly, un o brif ganfyddiadau'r arolwg yw diffyg partneriaethau ffurfiol yn gyffredinol, diffyg 'perchnogaeth' eglur o'r bartneriaeth, a diffyg blaengynllunio/cynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn sicrhau bod y trefniadau partneriaeth yn gallu parhau wedi i'r staff presennol (yn y naill sefydliadau a'r llall) adael.

3.2.8 Gallu

Nodwyd eisoes yn yr adroddiad fod gwahaniaethau o ran niferoedd a chymysgedd staff rhwng yr Asiantaethau a'i gilydd. At hynny, mynegodd sawl un o Brif Swyddogion yr Asiantaethau yn uniongyrchol na fyddai ganddynt y gallu i gynnal yr Archwiliadau Diogelwch Tân eu hunain. Eu canfyddiadau yn hyn o beth oedd:

- Bod eu staff eisoes yn gweithio hyd eithaf eu gallu (rhai'n dweud eu bod y tu hwnt i'w gallu).
- Bod yr Archwiliadau'n weithgarwch hirfaith, a fyddai'n anymarferol iddynt hwy ei gynnal yn ogystal â'r gwasanaethau y maent eisoes yn eu darparu i'w cleientiaid.

Canfyddiad eglur arall o'r arolwg oedd y rôl allweddol oedd gan y Tasgmon. Dyma'r aelodau o'r staff sy'n ymwneud fwyaf â gosod larymau mwg yng nghartrefi cleientiaid. Byddai eu rôl yn hanfodol wrth ddatblygu 'gwasanaeth' Archwiliadau o fewn yr Asiantaethau. Gan nad oes gan rai Asiantaethau yr un Tasgmon ar hyn o bryd, gwelid hyn gan rai Asiantaethau yn rhwystr ar unwaith i gynnal Archwiliadau eu hunain.

Fodd bynnag, mewn rhai cyfweliadau, crybwyllwyd y gallai cyllid ychwanegol, trwy daliadau i'r Asiantaeth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub am gynnal Archwiliadau, fod yn ffordd o'i chwmpas hi. Ni thrafodwyd yn yr arolwg pa lefel o gyllid y byddai ei angen, na'r ffordd y byddai'n cael ei ddefnyddio wedyn (e.e. i dalu am Dasgmon yn yr Asiantaeth).

3.2.9 Cyfathrebu

- **Cael 'enw person cyswllt' yn y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Yr hyn a ddaeth yn amlwg iawn yn yr arolwg oedd y pwys yr oedd y Prif Swyddogion yn ei roi ar 'gyfathrebu' wrth benderfynu pa mor effeithiol oedd y partneriaethau presennol neu rai yn y dyfodol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Tra'r oedd rhai Prif Swyddogion yn mynegi y byddent yn gwerthfawrogi rhagor o gyfathrebu gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr ateb a nodwyd fynychaf ar gyfer dechrau cyfathrebu neu wella hynny, oedd trwy gael 'enw un person cyswllt' yn y Gwasanaeth Tân ac Achub lleol.

Lle bo gan rai Asiantaethau enw cyswllt ar gael, roedd hynny'n cael ei ystyried yn beth cadarnhaol iawn. Mae nifer o'r rhai sydd heb enw person cyswllt ar hyn o bryd yn awyddus i 'fod mewn cysylltiad' â'r Gwasanaeth Tân ac Achub - ond heb fod yn sicr sut i fynd o'i chwmpas hi. Mewn rhai achosion, roedd Asiantaeth oedd ag enw person cyswllt yn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y gorffennol wedi colli hynny wrth i unigolion newid swydd ac ati, a hynny yn y naill sefydliad neu'r llall. Roedd rhai o'r Asiantaethau hyn wedi ceisio adfer y cyswllt, ond yn ofer.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y pwynt hwn, gan fod yr agwedd bersonol i'w weld yn 'sail' hanfodol ar gyfer adeiladu partneriaeth effeithiol. Mae cydberthynas eglur rhwng bodlonrwydd cyffredinol ynghylch y partneriaethau presennol a phresenoldeb enw person cyswllt ar gyfer yr Asiantaethau o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- **Cyswllt rheolaidd a chyfathrebu**

Mynegodd nifer o'r Asiantaethau eu bod yn dymuno cynnal cyswllt rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn cael gwybodaeth, e.e. beth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran darparu offer (newid sosbenni saim am ffrïwyr saim dwfn, ayyb). Hoffai'r staff wybod hefyd beth allant hwy, a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei dro, ei gynnig i'r cleientiaid. Byddai nifer o'r Asiantaethau hefyd yn gwerthfawrogi cael gwybod o flaen llaw a oedd unrhyw un o'r eitemau hyn yn cael ei

hyrwyddo/gynnig gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhyw fis neu'i gilydd. Y canfyddiad oedd bod hyn i'w weld yn newid dros amser, ac nad oedd unrhyw batrwm yn y peth.

- **Atgyfeiriadau Archwiliadau Diogelwch Tân**

Roedd yr Asiantaethau, a oedd yn atgyfeirio cleientiaid i'r Gwasanaeth Tân ac Achub i gael Archwiliadau Diogelwch Tân, yn gwneud hynny mewn amrywiol ffyrdd. Ar hyn o bryd, mae'r dulliau atgyfeirio'n amrywio o sefyllfa lle mae staff yr Asiantaethau'n gadael neges ar beiriant ateb yr Archwiliadau, sef y rhif '0800', i sefyllfa lle mae Asiantaethau'n llenwi ac yn cyflwyno taenlen atgyfeirio 'pro forma' i enw person cyswllt yn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Ychydig iawn o'r Prif Swyddogion oedd yn ystyried y dull y maent yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn un cwbl foddhaol.

Mewn rhai achosion, hyd yn oed pan fo gan yr Asiantaeth enw person cyswllt yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, nid oes ganddynt ffordd foddhaol o atgyfeirio.

Y peth allweddol yn hyn o beth yw bod effaith negyddol fel arfer yn cael ei achosi i fodlonrwydd a hyder yr Asiantaeth yn y broses atgyfeirio pan fo angen iddynt adael manylion ar 'beiriant ateb' yr Archwiliadau, - y rhif '0800'. Lle bo'r dull hwn o atgyfeirio'n cael ei weld yn beth amhersonol, 'diberchennog' neu'n anodd ei olrhain, dyma gyfle clir, a hawdd o bosib, i wella'r bartneriaeth bresennol ar unwaith.

Dim ond mewn nifer fechan o achosion y mae trefn 'adrodd yn ôl' mewn grym, sef pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn rhoi gwybod i'r Asiantaeth pan fo'r Archwiliad yr atgyfeiriwyd yn ei gylch wedi cael ei gynnal. Roedd angen i nifer o Asiantaethau, felly, holi'r cleient i gael gwybod a oedd yr Archwiliad wedi cael ei gynnal. A phan nad yw'r Archwiliad wedi ei gynnal, bydd yr Asiantaethau'n atgyfeirio'r un cleient eto.

Mae hyn yn golygu rhagor o amser, a dyblygu ymdrechion, ar ran staff yr Asiantaeth. Mae'n werth nodi fod gofyniad awdit i Asiantaethau Gofal a Thrwsio ddangos tystiolaeth o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yng nghartrefi cleientiaid. Mynegodd nifer o'r Asiantaethau bryder nad oeddent yn sicr, wedi iddynt atgyfeirio cleientiaid, faint o amser y dylent ei ddweud wrth y cleientiaid (h.y. nid oeddent yn sicr faint o amser y byddai'n rhaid disgwyl cyn i'r Archwiliad gael ei gynnal). Pwynt pwysig i'w nodi yma nad oedd yr Asiantaethau, mewn rhai achosion, yn hyderus wrth roi syniad o amser i'w cleientiaid, oherwydd byddai unrhyw oedi wrth ddisgwyl am yr Archwiliad yn adlewyrchu'n wael ar yr Asiantaeth ('ni sy'n siarad efo'n cleientiaid, ac rydym ni'n edrych yn amhroffesiynol os ydi'r math yna o beth yn digwydd').

(Mae rhai Asiantaethau'n atgyfeirio i'r Cynllun Bobi'r Fan yn eu hardaloedd gan eu bod hwythau'n gosod larymau mwg. Nid fel rhywbeth 'yn lle' y Gwasanaeth Tân ac Achub y gwelid hyn, ond fel dewis arall i staff yr Asiantaeth.)

3.2.10 Hyfforddiant

Mae nifer fechan o'r Asiantaethau wedi derbyn hyfforddiant gan eu Gwasanaeth Tân ac Achub lleol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o risg tân, ac maent yn fodlon â faint o hyfforddiant a gwybodaeth a roddir i'r staff. Fodd bynnag, mae nifer o'r Asiantaethau i'w gweld yn ansicr o'r hyn a olygir gan 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref'. Mae'n bosib fod rhai o'r Asiantaethau, sy'n gosod larymau mwg, yn cynnwys rhannau o broses yr Archwiliad, er nid o reidrwydd, bob rhan y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei gynnwys. Er enghraifft, nid yw rhai Asiantaethau'n darparu arweiniad ynghylch cynlluniau/llwybrau dianc petai yna dân yng nghartref y cleient.

Byddai pob Asiantaeth, boed nhw wedi cael hyfforddiant eisoes ai peidio, yn gwerthfawrogi rhagor o hyfforddiant, neu loywi hyfforddiant, mewn ymwybyddiaeth sylfaenol o risg tân. Dywedodd y Prif Swyddogion y byddai angen i hwnnw fod yn ymarferol iawn ac yn cael ei gyflwyno mewn ffordd

sydd heb fod yn dechnegol, a hynny er mwyn bod mor effeithiol â phosib. Y brif fantais dan sylw oedd staff yr Asiantaeth yn bod yn ddigon gwybodus yn y maes hwn i deimlo'n hyderus wrth drafod materion diogelwch tân yn y cartref, a'r peryglon posib, gyda chleientiaid unigol.

Roedd y farn ymysg Asiantaethau'n rhanedig o ran y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol o ddarparu'r hyfforddiant hwn. Roedd rhai yn ffafrio sesiynau hyfforddiant rhanbarthol, tra'r oedd eraill yn ffafrio sesiynau hyfforddi o fewn yr Asiantaeth.

3.2.11 Partneriaethau Cyfredol gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub (categorïau 'A' – 'D')

Mae gan y rhan fwyaf o'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio drefniant o fath 'B' gyda'u Gwasanaethau Tân ac Achub lleol (h.y. mae staff yr Asiantaeth yn derbyn caniatâd eu cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Yna, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn darparu cyngor, gwybodaeth ac ymweliad i gynnal Archwiliad yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrwsio). Fodd bynnag, ymddengys nad oes math 'safonol' o gategori 'B' - mae pob Asiantaeth/ Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithredu'n wahanol o ran atgyfeiriadau, yr wybodaeth a ddarperir, monitro ac adrodd.

Dywedodd rhai Asiantaethau eu bod yn fodlon aros ar y lefel hon, er gyda dull mwy strwythuredig a rhagor o arweiniad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Fodd bynnag, fe fyddai llawer ohonynt yn hoffi edrych ar y posibilrwydd o gynyddu'r gwaith mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Byddai angen ystyried yr amryw o oblygiadau a fyddai'n bodoli petai'r gwaith mewn partneriaeth yn cael ei gynyddu, ac ymdrinnir â'r rheini yn yr adran 'Casgliadau ac Argymhellion' yn yr adroddiad hwn.

3.2.12 Rhwydweithiau

Mae pob Asiantaeth yn gweithio gyda llu o sefydliadau eraill (e.e. Cymdeithasau Tai, Iechyd Galwedigaethol, y Gwasanaethau Cymdeithasol), ac mae'r sefydliadau hyn yn aml yn cyfeirio neu'n atgyfeirio cleientiaid i'w Hasiantaethau. Mae'n werth nodi, hefyd, fod gan nifer o'r Asiantaethau gysylltiadau da gyda sefydliadau a fforymau gwirfoddol lleol a chenedlaethol, a llawer ohonynt yn delio â grwpiau sydd wedi eu hadnabod yn rhai 'mewn perygl'. Mae cyfle da i Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaeth Tân ac Achub fanteisio i'r eithaf ar hyn, ac i edrych ar y posibiliadau sy'n bodoli trwy'r rhwydweithiau ehangach hyn, e.e. y Gwasanaethau Tân ac Achub yn gallu cael gwell mynediad at grwpiau eraill sydd 'mewn perygl' trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y rhwydwaith hwn.

Crybwyllodd rhai o Brif Swyddogion yr Asiantaethau fod rhai o gynrychiolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub eisoes yn cefnogi/mynychu digwyddiadau lleol Gofal a Thrwsio (e.e. 'Wythnos Gofal a Thrwsio'), ynghyd â mentrau cymunedol mwy cyffredinol. Lle bo'r rhain yn digwydd, y farn oedd eu bod yn fuddiol tu hwnt i'r bartneriaeth o ran codi proffil Gofal a Thrwsio (cael rhagor o gleientiaid neu gysylltiadau); codi proffil y Gwasanaeth Tân ac Achub; codi proffil y bartneriaeth ei hun, ac yn gyffredinol, yn cryfhau'r cwlwm o fewn y bartneriaeth ei hun. Mae'r berthynas rhwng rhai o'r Asiantaethau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yn enwedig y rhai sydd heb enw person cyswllt penodol, yn annhebygol o fod yn ddigon cadarn eto i gefnogi'r math hwn o gydweithio trwy rwydwaith.

3.2.13 Amrywiaeth o ran safbwyntiau/dealltwriaeth o'r risg i gleientiaid o gael tân yn y tŷ, o'i gymharu â risgiau eraill

Roedd yn eglur fod pob un o'r Asiantaethau yn deall pwysigrwydd diogelwch tân, a'r risg o dân sydd o bosib yn uwch ymysg eu demograffeg benodol o ran cleientiaid. Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau'n amrywio o un Prif Swyddog i'r llall ynghylch lefel absoliwt y risg penodol hwn (o'i

gymharu â risgiau posib eraill), a hefyd union rôl pob Asiantaeth o ran lliniaru'r risg i'w cleientiaid. Er enghraifft, awgrymodd un Prif Swyddog mai 'mater i'r arbenigwyr' oedd adnabod risg tân, ac roedd, o'r herwydd, yn awyddus i atgyfeirio cynifer o gleientiaid ag y bo modd i'r Gwasanaeth Tân ac Achub allu cynnal 'Archwiliad llawn'. Ar y llaw arall, roedd Prif Swyddog arall yn hyderus fod y gwasanaeth gosod larymau mwg gan staff yr Asiantaeth yn gystal â'r gwasanaeth 'tebyg' a oedd yn cael ei gynnal gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Nid edrychodd yr arolwg hwn ar p'un ai oedd y gwahanol safbwyntiau'n gysylltiedig â pha mor 'agos' oedd y berthynas gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub lleol.

3.2.14 Cydsyniad

Mae gan bob un o'r Asiantaethau ryw fath o ffurflen cytundeb ar gyfer cleientiaid, sy'n rhestru'r 'contract' rhwng y cleient a'r Asiantaeth. Wedi llofnodi honno, mae'r cleient yn cydsynio i'w wybodaeth gael ei rhannu gyda phartïon eraill, a hynny i ddiben darparu gwasanaethau ychwanegol. Mewn rhai achosion prin, bydd yr Asiantaeth yn nodi'n ysgrifenedig fod y cleient yn cael ei atgyfeirio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Ym mhob achos, fodd yn bynnag, bydd y cleient yn cael ei hysbysu, ei holi, a bydd yn ymwybodol y bydd yn cael ei atgyfeirio i 'drydydd parti', boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Y math o bartneriaeth rhwng yr Asiantaeth a'r Gwasanaeth Tân ac Achub lleol fydd yn pennu a fydd yr Asiantaeth yn trafod â'r cleient fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn un o'r 'partïon eraill' hyn ai peidio (ac felly'n derbyn y data hwn, o bosib).

3.2.15 Yr Archwiliad 'Cartref Iach'

Ar hyn o bryd, gall pob Asiantaeth gynnal rhyw fath o 'archwiliad' yng nghartref cleientiaid newydd (neu gyfredol). Ni fydd pob cleient yn derbyn hyn, gan fod modd ateb ymholiadau rhai cleientiaid dros y ffôn, neu mae'n bosib mai gwneud cais am wasanaeth penodol yn unig y bydd y cleient.

Mae gan rai Asiantaethau 'restr wirio' Cartref Iach, sy'n ffurfiol ac yn strwythuredig ac sy'n cael ei gynnal ar y pryd, tra bydd eraill yn cynnal yr archwiliad gan ddefnyddio eu cof a'u profiad. Ymddengys ei fod, ym mhob achos, yn cael ei wneud mewn dull holistaidd, yn benodol i bob cleient a'u hanghenion. Fodd bynnag, yr hyn sy'n sicr yw nad yw asesu perygl tân yn beth wedi ei safoni trwy'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Roedd rhai Asiantaethau wedi derbyn *aide memoire* gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghylch asesu perygl tân, a gwelid hwnnw'n fuddiol, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn hwnnw gryn amser yn ôl.

4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Angen perthynas agosach a mwy ffurfiol/strwythuredig ar gyfer cydweithio.

Trwy gael partneriaeth agosach a mwy strwythuredig, gellir cael manteision sylweddol. Mae hyn yn wir, ni waeth beth fo'r bartneriaeth bresennol, cryfder y berthynas bresennol neu a oes dymuniad i gael mwy o bartneriaeth ai peidio.

Mae hyn yn ymwneud â'r partïon yn gwybod â phwy i gysylltu, cael eglurder yn y prosesau i'w dilyn, dealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir gan bob ochr fel rhan o'r bartneriaeth, a bod yn eglur ynghylch y modd y mae amseru'r cyfrifoldebau unigol hyn yn gweithio er mwyn cyflwyno gweithgarwch/ymyriadau i'r cleientiaid. Trwy lapio'r elfennau hyn mewn strwythur y cytunir arno, gellir cael sylfaen gadarn a'r hyder i adeiladu partneriaeth effeithiol arni.

Mae hyn yn wir angenrheidiol ar gyfer cydweithio'n effeithiol; ni ddylid ystyried 'ffurfioli' a 'chyfeillgar' yn gwbl ar wahân. Nid yw o reidrwydd yn golygu unrhyw gytundeb hirfaith/geiriog/ffurfiol neu orfodol - yn wir, efallai na fydd rhai Asiantaethau'n gweld gwerth yn hynny ar unwaith gan eu bod eisoes yn teimlo bod ganddynt berthynas dda/fwy personol/gyfeillgar gyda'u Gwasanaeth Tân ac Achub, felly nid oes angen ei ffurfioli. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau i'w cael o'r 'cytundebau anffurfiol' hyn yn methu dros amser, neu wrth i staff newid ar y naill ochr neu'r llall.

Gellir gwneud hyn trwy:

- Dulliau o weithiau y cytunir arnynt / sy'n ffurfiol / sy'n strwythuredig - yn cynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Cytundeb Partneriaeth /Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU).
- Trefnu cyfarfodydd (mor aml ag sydd angen).
- Galwadau ffôn ar hap – i weld bod popeth yn iawn.
- Enwau 'cyswllt' ar y ddwy ochr.

What must be kept in mind throughout this is that for any partnership to work and be sustainable, all parties must agree to and be comfortable with, the parameters of the partnership. Each party must be sensitive to the requirements and objectives of the other parties involved.

Er mwyn i unrhyw bartneriaeth weithio a bod yn gynaliadwy, rhaid cofio bod yn rhaid i bob ochr gytuno â pharamedrau'r bartneriaeth, a bod yn gyfforddus â nhw. Rhaid i bob ochr fod yn sensitif i ofynion ac amcanion yr ochr arall.

Argymhellir yn gryf y dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio:

- Drafod union faint y cyfle – h.y. er mwyn bod yn glir faint o gleientiaid y cysylltwyd â nhw / yr ymwelwyd â nhw / a wasanaethwyd ym mhob mis / blwyddyn, a deall bod 'Ymateb Cyflym' yn wasanaeth ar wahân / gwahanol i'r gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cleientiaid.
- Trafod a deall faint o waith atgyfeirio arall y mae'r Asiantaethau'n eu derbyn gan sefydliadau eraill, e.e. gosod teclynnau canfod carbon monocsid neu larymau mwg gan Teleofal.

Trwy ddeall y ffactorau hyn, gellir gweld yn gliriach faint o botensial sydd ar gyfer gwaith ychwanegol i'r Asiantaethau mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tân ac Achub, ac a yw lefel y gwaith ychwanegol hwn yn cwrdd â gofynion y Gwasanaeth Tân ac Achub, e.e. a fydd yn golygu digon o atgyfeiriadau ychwanegol, neu a yw'r cyd-fynd â thargedau'r Gwasanaeth Tân ac Achub o ran Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref?

4.2 Cytuno ar brosesau effeithiol ar gyfer atgyfeirio ac adborth yn dilyn atgyfeiriadau.

Mae hyn yn gweithio'r ddwy ffordd, a byddai'r ddwy ochr yn elwa o gael prosesau clir ac effeithiol ar gyfer atgyfeirio.

Gellir gwneud hyn trwy:

- Y broses lle mae'r Asiantaeth yn atgyfeirio i'r Gwasanaeth yn un syml, cyflym, ond lle bo modd olrhain. Ar hyn o bryd, mae'r rhai Asiantaethau'n defnyddio pro forma gan y Gwasanaeth, ac yn gweld hyn yn beth defnyddiol iawn.
- Ni ddylai fod angen i'r Asiantaethau atgyfeirio Archwiliadau trwy'r rhif '0800'.
- Dylai'r Asiantaeth gael adborth pan fo eu 'cyswllt' yn y Gwasanaeth wedi derbyn (ac wedi prosesu) eu hatgyfeiriadau.
- Oherwydd gofynion llym o ran archwilio (h.y. awdit), byddai hefyd o fudd i'r Asiantaethau petai'r Gwasanaeth yn adrodd yn ôl pan fo Archwiliad wedi ei gwblhau. Mae ambell Asiantaeth yn derbyn copi o ffurflen yr Archwiliad wedyn, ac maent yn gweld hyn yn fuddiol hefyd.
- Dylai'r Asiantaeth a'u cyswllt yn y Gwasanaeth gytuno ar amser ar gyfer atgyfeiriadau, e.e. pa mor aml mae'r atgyfeiriadau'n cael eu hanfon i'r Gwasanaeth, pryd dylai'r Asiantaeth ddisgwyl ateb, pa mor hir fydd yn rhaid i'r cleient ddisgwyl cyn cael yr Archwiliad ayyb.
- Gallai'r Gwasanaeth gynorthwyo i godi proffil gwaith Gofal a Thrwsio trwy atgyfeirio neu dynnu sylw at bobl hŷn a allai fod ag angen gwasanaethau Gofal a Thrwsio. Fodd bynnag, dylai peirianwaith fod mewn lle i gynrychiolydd y Gwasanaeth fod yn ymwybodol ei fod yng nghartref un o gleientiaid Gofal a Thrwsio.

4.3 Hyfforddiant a Chefnogaeth

Ni waeth beth fo lefel y bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaeth, rydym yn credu y bydd o fwy o les i 'nodau' a 'chenhadaeth' y tair ochr (y Gwasanaethau Tân ac Achub, Gofal a Thrwsio, ac Atal Tân) petai'r ymwybyddiaeth o beryglon tân yn cael ei godi.

Gellir gwneud hyn trwy:

Deunyddiau

- Cyflwyno un daflen diogelwch tân, â chynnwys a geiriad priodol i adlewyrchu'r gynulleidfa (h.y. deunydd ar gyfer y cleient).
- Cyflwyno 'arweiniad' ysgrifenedig ar gyfer staff rheng-flaen Gofal a Thrwsio, e.e. "Asesu'r risgiau diogelwch tân yng nghartrefi pobl hŷn; gan ganiatáu iddynt fyw'n annibynnol gartref am fwy o amser ... yn ddiogel". Arbenigedd y Gwasanaeth ddylai fod yn sail i hyn, ond yn cael ei ysgrifennu trwy ymgynghoriad â Gofal a Thrwsio, er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn hawdd ei deall, a bod modd cyflwyno'r cynghorion yn ymarferol gan staff rheng flaen Gofal a Thrwsio (h.y. deunydd ar gyfer staff yr Asiantaeth).
- Trwy gyswllt yn y Gwasanaeth, dylid rhoi gwybod i'r Asiantaeth pa ddeunyddiau/eitemau eraill sydd ar gael i'w rhoi i gleientiaid e.e. ffrïwyr saim dwfn.

Roedd pob Asiantaeth y buom yn eu cyfweld yn teimlo y byddent yn elwa ar hyfforddiant ymwybyddiaeth o risg tân. Felly, ynghyd â'r ochr ymarferol o ddarparu'r deunyddiau ysgrifenedig uchod, mae cyfle i wybodaeth ac arbenigedd y Gwasanaeth ar asesu risg tân gael ei drosglwyddo i staff perthnasol yn yr Asiantaethau, a hynny trwy raglen o hyfforddiant i staff. Byddai hyn yn arwain at nifer o fanteision, yn cynnwys codi lefel yr hyder ymysg staff yr Asiantaethau.

4.4 Y diffiniad o 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref'

O fewn unrhyw gytundeb neu bartneriaeth rhwng Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, dylid rhoi ystyriaeth i'r diffiniad o 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref', a'r modd y caiff ei gynnal. Nid oes yr un math safonol trwy Gymru. Gan fod y tri Gwasanaeth yn cynnal eu Harchwiliadau mewn modd gwahanol, bydd angen i bob Asiantaeth ddilyn y Gwasanaeth yn eu hardal eu hunain.

Awgrymwn i'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried, a bod yr Asiantaeth a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn dod i gytundeb ynghylch:

- Diffiniad clir o 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref'. A all gwasanaeth a ddarperir gan sefydliad gwahanol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub fod yn 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref' mewn gwirionedd?
- A oes raid i bob Asiantaeth Gofal a Thrwsio gadw at ganllawiau polisi'r Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn cynnal Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref' sydd o safon y Gwasanaeth Tân ac Achub? Er enghraifft, os oes gan y Gwasanaeth safon sy'n mynnu bod Archwiliad yn cael ei gynnal gan 2 neu ragor o staff, a oes yn rhaid i'r Asiantaeth hefyd ddilyn hynny er mwyn iddo fod yn 'Archwiliad' swyddogol, h.y. yn cael ei gynnwys yng nghyfanswm y Gwasanaeth?
- Pan fo Asiantaethau'n cynnal yr Archwiliad (a'r rheini'n cael eu cynnwys yn nhargedau'r Gwasanaeth), a ydynt yn cael / a ddylent gael eu nodi'n 'wahanol'?
- Archwiliad pwy ydyw? A ddylai staff Asiantaethau Gofal a Thrwsio gael cydnabyddiaeth am y gwaith y maent yn ei wneud ar ran y Gwasanaeth? Dylid ystyried y gallai hyn gael goblygiadau o ran morâl y staff.
- A oes diffiniad ysgrifenedig o Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref i'w gael gan bob Gwasanaeth. Hynny yw, a oes angen i'r Asiantaeth gynnal yr Archwiliad i gyd-fynd â'r diffiniad ysgrifenedig hwnnw er mwyn iddo gyfrif yn nhargedau'r Gwasanaeth?
- Er bod cryn dystiolaeth i ddangos bod mentrau Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn lleihau'r tebygolrwydd o dân yn y cartref (Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: "*Final Evaluation of the Home Fire Risk Check Grant*", Mawrth 2009), ni allwn warantu na all tân (hyd yn oed 'dân angheuol') ddigwydd er bod Archwiliad wedi ei gynnal. Dylid felly ystyried y goblygiadau, petai tân yn digwydd yn y cartref wedi i Archwiliad gael ei gynnal gan staff yr Asiantaeth. Er bod gan y Gwasanaeth gynlluniau ac ymatebion penodol (e.e. cyfreithiol, 'Cysylltiadau Cyhoeddus', a staff) mewn achos o'r fath (h.y. ar ôl tân mewn tŷ sydd wedi cael Archwiliad gan y Gwasanaeth), i ba raddau y gellir ymestyn y rhain i gefnogi Asiantaethau a allai eu cael eu hunain mewn sefyllfa o'r fath?
- Pa lefel o hyfforddiant sy'n ddigonol cyn i'r Gwasanaeth fod yn fodlon y gall yr Asiantaeth gyflwyno Archwiliad sydd o safon y Gwasanaeth? Pa gynlluniau sydd ar gyfer gloywi'r hyfforddiant hwn, a yw'n barhaus?
- A ddylai'r Gwasanaeth Tân ac Achub fonitro ansawdd yr Archwiliadau a ddarperir gan yr Asiantaethau yn barhaus? Os felly, sut a phryd?

Ni ddylid ystyried yr un o'r pwyntiau uchod yn 'rhwystr' rhag ymestyn y gwaith mewn partneriaeth a chyflwyno (neu gyflwyno ar y cyd) y gwasanaethau diogelwch tân gan Asiantaethau. I'r gwrthwyneb, trwy drafod a dod i gytundeb ynghylch y pwyntiau uchod, gellir cael yr eglurder a'r hyder sydd eu hangen yn sylfaen i waith mwy effeithiol mewn partneriaeth.

4.5 Yr Asiantaeth yn gosod Larymau Mwg a ddarperir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub

Pan fo Asiantaeth yn gosod larymau mwg a ddarperir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng nghartrefi cleientiaid (boed hyn yn rhan o Archwiliad ai peidio), argymhellir ystyried y pwyntiau canlynol:

- Monitro'r cyflenwad o larymau mwg a ddarperir i'r Asiantaethau. Sut dylai'r ddwy ochr gofnodi hyn?
- Pa fath o larymau mwg a ddarperir (y rhai sy'n gweithio ar y cyflenwad trydan / rhai â batri i'w newid / rhai â batri 10 mlynedd?) Mae ymchwil yn dangos bod pobl hŷn ymysg y rhai sydd leiaf abl i gynnal a chadw'r larymau hyn dros amser.
- A yw ansawdd gwaith yr Asiantaeth sy'n gosod y larymau yn cael ei fonitro gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac os oes angen hynny, sut mae'n cael ei fonitro? Er enghraifft, a yw'r larymau'n cael eu gosod yn y lleoedd mwyaf priodol yng nghartrefi cleientiaid, yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Tân ac Achub?
- Beth yw'r broses ar gyfer ail-archebu larymau mwg? Pwy sydd yn y sefyllfa orau i gadw'r stoc, a beth yw'r goblygiadau ariannol o wneud hynny?
- Ar hyn o bryd, nid yw nifer o'r Asiantaethau sy'n gosod larymau mwg yn 'cyflawni' pob rhan o'r Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref - a oes mesurau mewn lle ar gyfer sicrhau nad yw'r mathau hynny'n cyfrif fel 'Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref'?

4.6 Cytgordio'r cyllid a'r cyflenwad offer

Ymddengys bod gwahanol gytundebau a threfniadau trwy Gymru o ran ariannu a darparu offer diogelwch tân (yn cynnwys larymau mwg). Ni wnaethom ni ofyn i'r Asiantaethau pa lefel o gyllid oedd mewn lle, neu ba lefel a fyddai'n eu galluogi neu eu'n hannog i gynnal Archwiliadau eu hunain. Fodd bynnag, mae angen cytgordio a safoni'r gweithdrefnau ar gyfer cyflenwi'r offer hyn, ac er mwyn ariannu gwasanaethau. Heblaw am y manteision amlwg a ddeuai o safoni yn y meysydd hyn (e.e. olrhain stoc a chadw stoc yn y Gwasanaethau a'r Asiantaethau), mae rhywbeth pwysig arall i'w ystyried. Byddai gweld prosesau a threfniadau ariannu safonol mewn lle yn osgoi'r posibilrwydd o'r Asiantaethau'n teimlo'n annifyr eu bod o dan anfantais mewn rhyw fodd dan eu trefniadau hwy.

Byddai gwahaniaethau'n dal yn bosib yn hyn o beth, ond dylai gwahaniaethau o'r fath fod yn eglur, a'u bod yn cael eu hadrodd a bod cyfrif amdanynt.

5. Beth gall Atal Tân Cymru ei ddwyn i'r Bartneriaeth

Mae Atal Tân Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru wedi arwyddo Cytundeb Partneriaeth sy'n drosfwaol ac sy'n nodi ein fframwaith ar gyfer cydweithio a chydweithredu. Mae rhan o'r ddogfen yn nodi'r cyfleoedd presennol a newydd sy'n bodoli rhwng yr Asiantaethau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae Atal Tân mewn sefyllfa dda i gefnogi'r dasg o ddatblygu perthynas weithio agosach rhwng Gofal a Thrwsio a'r Gwasanaeth. Wrth gwblhau'r arolwg hwn a rhannu'r canfyddiadau, rydym yn gobeithio ein bod wedi ychwanegu at y ddealltwriaeth rhwng pob ochr, ac wedi sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith arolwg posib yn y dyfodol.

Mae Atal Tân Cymru mewn sefyllfa unigryw o ran deall diwylliant, strwythur ac arferion gweithio'r Gwasanaethau Tân ac Achub, yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio a Gofal a Thrwsio Cymru. Mae'r sefyllfa hon a'r mewnwelediad unigryw yn caniatáu inni gydnabod blaenoriaethau pob ochr. Felly, rydym yn y sefyllfa orau i gefnogi'r gwaith partneriaethol presennol, a hwyluso a chydlynu gwaith mewn partneriaeth yn y dyfodol. Nid oes gennym agenda gudd, ein cenhadaeth, yn syml, yw lleihau'r achosion o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tân yng Nghymru. Mae'r genhadaeth hon a'n niwtraliaeth yn y bartneriaeth yn caniatau inni weithio mewn modd sensitif, ond yn wrthrychol, gyda phob ochr er mwyn cyrraedd ein nod cyffredin. O gael y safbwynt Cymru-gyfan hwn, gallwn ymateb yn sydyn i lwyddiannau allweddol mewn un ardal a bwydo'r rhain i rannau eraill o Gymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r hyn yr ydym ni'n ei deimlo oedd y canfyddiadau allweddol gyda'r 22 o Asiantaethau Gofal a Thrwsio. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn wedi cael eu cydgrynhoi a'u cyffredinoli, ac mae gan Atal Tân gyfoeth o wybodaeth a mewnwelediad ansoddol ychwanegol, o ganlyniad i gynnal yr arolwg. Daeth hyn yn sgil trylwyredd yr arolwg a natur agored yr Asiantaethau a gymerodd ran.

Wedi siarad â'r Asiantaethau trwy Gymru, gallwn ddod â phersbectif arall i'r bwrdd, a bod yn gyfrannwr gwerthfawr ac yn bartner yn y fenter.

Mae sawl ffordd y gall Atal Tân Cymru gynorthwyo'r bartneriaeth:

5.1 Perthynas agosach a mwy ffurfiol/strwythuredig o weithio gyda'n gilydd

- Gallwn ddarparu templedi dogfennau, e.e. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, Protocol ar gyfer Rhannu Data.
- Bod yn 'gyswllt cyson'.
- Byddwn yn dal cronfa ddata o fanylion cyswllt pawb sy'n rhan o'r partneriaethau, a bydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ar ran pob ochr.
- Cynnig lle yn ein swyddfeydd i gynnal cyfarfodydd, neu hwyluso cyfarfodydd trwy Gymru.
- Byddwn yn dychwelyd i'r Asiantaethau ymhen blwyddyn er mwyn ail-gyfweld a chael gwybod am hynt y partneriaethau.
- Rydym yn fodlon bod yn gyfryngwr petai unrhyw drafferth yn codi rhwng y partneriaid.

5.2 Prosesau effeithlon y cytunwyd arnynt ar gyfer atgyfeirio ac adborth am atgyfeiriadau

- Byddwn yn ymgynghori ynghylch datblygu, llunio a chyflwyno amrywiaeth o dempledi a phrosesau ar gyfer atgyfeirio Archwiliadau. D.S. Mae enghraifft ddrafft o broses atgyfeirio i'w gael yn Atodiad III. Mae map y broses yn seiliedig ar yr arferion gorau a roddwyd inni gan yr Asiantaethau. Gellir ffiltro'r data am atgyfeirio o'r systemau data a'u hanfon fel taenlen i'r Gwasanaeth gyda manylion yn cynnwys: oedran y cleient (50+, 60+ ayyb), manylion cyswllt y cleient ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod o ddefnydd i'r Gwasanaeth

(e.e. ysmygu, defnyddio ocsigen, cyfyngiadau ar symudedd, byw ar eu pen eu hunain ayyb).
- Gallwn ymgynghori a chynorthwyo wrth ddatblygu diffiniad ysgrifenedig o Archwiliad a chanllawiau y dylai'r Asiantaeth eu dilyn wrth gynnal Archwiliad.

5.3 Hyfforddiant a chefnogaeth

- Gallwn fod mewn cysylltiad â phob ochr wrth drefnu sesiynau hyfforddi yn rhanbarthol neu'n lleol fel y bo angen.
- Mae Atal Tân Cymru yn fodlon cydlynu gweithgor i ymgorffori mewnbwn ar y cyd i gynnwys, dyluniad, geiriad ac arddull taflen ar gyfer cleientiaid. Ein teimlad ni yw na ddylai gynnwys y rhif 0800, ond y dylai annog cleientiaid drefnu trwy eu cynrychiolydd o Gofal a Thrwsio.
- Rydym ar gael i fod yn asiantaeth gyfryngol, a gallwn gynnig cefnogaeth.

5.4 Cefnogi Ymchwil

- Gallwn gynnal ein hymchwil ein hunain, yn ogystal â dadansoddi'r ymchwil presennol, a hynny er mwyn adnabod y grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o dân yn y cartref. Rydym yn fodlon rhannu canfyddiadau'r ymchwil gyda'n partneriaid er mwyn cefnogi eu gwaith ac er mwyn targedu ein hymyriadau'n well. Gallwn hefyd gynnig gwasanaethau ymchwil wedi eu teilwra, er enghraifft, gallem gynnal ymchwil ansoddol gyda chleientiaid Gofal a Thrwsio er mwyn cael mewnwelediad pellach i'w hymchwil presennol gyda'u cleientiaid.
- Mae gennym y cyfle, y sgiliau a'r arbenigedd i gynnig darlun trwy Gymru o lwyddiannau partneriaethau. Gallwn wneud hyn mewn sawl ffordd, e.e. monitro parhaus neu werthusiad rheolaidd ar raddfa fwy.
- Rydym eisoes yn lledaenu ein dealltwriaeth o ddiogelwch tân ymysg grwpiau penodol, ac rydym wedi adnabod pobl hŷn yng Nghymru fel 'targed' penodol ar gyfer ymchwil. Gan ein bod eisoes wedi trafod nifer o brosiectau ymchwil gyda sefydliadau academaidd a grwpiau buddiant (e.e. OPAN Cymru), gallem edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhwydwaith ymchwil newydd ar gyfer Cymru. Petai hynny'n cael ei ystyried yn beth buddiol, byddai'r grŵp (yn cynnwys y Gwasanaeth Tân, Atal Tân, Gofal a Thrwsio ac OPAN Cymru) yn gallu dwyn eu harbenigedd ynghyd er mwyn ehangu ein gwybodaeth o ddiogelwch tân a phobl hŷn, yn ogystal ag adnabod unrhyw ymchwil y gallem fod yn dymuno ei gynnal.

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn, ynghyd ag unrhyw ymchwil pellach a gynhaliwyd, yn berthnasol ac i'w ddefnyddio gyda phartneriaethau eraill posib, ac ar gyfer sefydliadau a chymunedau sy'n gweithio gydag unigolion a grwpiau eraill sy'n agored i berygl, nid dim ond pobl hŷn.

6. Pwysigrwydd 'gweithio mewn partneriaeth' – tebygrwydd i ganfyddiadau yn Lloegr

Seiliwyd canfyddiadau'r adroddiad hwn ar safbwyntiau'r Prif Swyddogion yn yr Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Ac o'r herwydd, 'dim ond un ochr i'r geiniog ydyw'. Eto, mae'n bwysig nodi bod tebygrwydd mawr rhwng y canfyddiadau hyn a chanlyniadau adroddiad diweddar gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol sef *"Final Evaluation of the Home Fire Risk Check Grant and Fire Prevention Grant Programme"* (Greenstreet Berman, Mawrth 2009).

Comisiynwyd adroddiad gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol i werthuso pa mor effeithiol yw dwy raglen grant, sef yr *Home Fire Risk Check (HFRC) Initiative* (2004-2008) a'r *Fire Prevention Grant* (2006-2008). Yn ei hanfod, comisiynwyd yr adroddiad hwn er mwyn deall ac edrych ar y gwahaniaeth y mae'r buddsoddiad hwn gan y Llywodraeth wedi ei gael i wella deilliannau diogelwch tân yn Lloegr.

Gan fod 'gweithio mewn partneriaeth' yn cael ei annog yn benodol gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol fel peirianwaith pwysig ar gyfer darparu'r grantiau hyn, mae rhan o'r gwerthusiad hwn yn ystyried y maes hwn yn benodol. Felly, mae'r ymchwil hwn yn berthnasol iawn i'n hadroddiad ni. Yn hollbwysig, mae adroddiad yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn cynnig persbectif y Gwasanaeth Tân ac Achub hefyd. Seiliwyd yr argymhellion ar ymchwil a gynhaliwyd ymysg 91% o'r holl Wasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr, yn ogystal ag ymchwil ansoddol a gynhaliwyd gydag 16 o bartneriaid (a'r 'partneriaid' hyn yn cynnwys darparwr Tai Cymdeithasol, 2 elusen pobl hŷn, Asiantaeth Gwella Cartrefi a Chyngor Dosbarth).

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ystyried yn beth pwysig iawn gan bob un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub a atebodd, wrth gyflwyno diogelwch tân cymunedol. Ystyrid y partneriaid gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yn rhai amrywiol ac yn cyflawni amrywiaeth o rolau a swyddogaethau, yn cynnwys:

- Atgyfeirio gwaith Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref
- Cynnal Archwiliadau
- Gosod larymau
- Gwaith eiriolaeth

Hefyd, gwelai'r partneriaid fod y partneriaethau'n werthfawr iawn wrth gyflawni eu nodau a'u hamcanion eu hunain ymysg eu 'cynulleidfaoedd darged' eu hunain. Gwelai'r partneriaid hefyd fod y partneriaethau wedi bod yn gymorth i godi eu proffiliau eu hunain o fewn eu cymunedau, ac yn gymorth i hwyluso rhwydweithio/cysylltu ag asiantaethau eraill.

Mae'r ddwy restr hon yn grynodeb o Adroddiad yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol:

Y ffactorau allweddol er mwyn cael partneriaethau da – o safbwynt y Gwasanaeth Tân ac Achub:

Yn cynnwys:

- Adnabod partneriaid sydd â'r gallu i gyfrannu'n effeithiol
- Rhoi cytundebau cynnar ar waith – cytundebau lefel gwasanaeth, memorandwm cyd-ddealltwriaeth, strategaethau ymadael
- Sicrhau bod gweithdrefnau rheoli ansawdd mewn lle (yn cynnwys gwerthuso)
- Gosod disgwyliadau realistig gan y partneriaid
- Sicrhau amcanion a chwmpas clir

Nodweddion allweddol partneriaeth dda – o safbwynt y partneriaid:

Yn cynnwys:

- Cael pwynt cyswllt, a pherthynas dda gydag ef/hi
- Dealltwriaeth a gwybodaeth am waith a strwythur y ddau sefydliad
- Hyfforddiant
- Cyfathrebu clir
- Adnoddau cywir i bob gwaith, h.y. y sefydliad wedi ymrwymo i'r gwaith ac i gyflawni ei amcanion
- Ffordd onest a realistig o edrych ar yr hyn y gellir / na ellir ei gyflawni

Mae adroddiad yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn cloi trwy ddweud:

"Da o beth oedd gweld bod gweithio mewn partneriaeth wedi ei wreiddio yn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd maint y gwaith hwn yn amrywio rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub, ond roedd y manteision yn weladwy, ac yn cael eu rhannu. Roedd manteision y gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys torri'r rhwystrau i garfannau bregus o'r gymuned, llawer ohonynt sydd mewn perygl uchel o dân. Roedd yn eglur fod ffordd bell i fynd gyda gweithio mewn partneriaeth; bydd cynaliadwyedd perthnasoedd yn faes allweddol y bydd llwyddiant yn dibynnu arno".

Efallai nad yw'n syndod fod canfyddiadau adroddiad yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol yn adleisio ac yn cefnogi canfyddiadau cyffredinol y canfyddiadau sydd yn yr adroddiad hwn gan Atal Tân, o ystyried tebygrwydd cyffredinol y pynciau a'r maes. Wedi dweud hynny, mae adroddiad Atal Tân wedi ychwanegu rhagor o fanylion ynghylch y sefyllfa benodol gydag un math o bartneriaeth, h.y. y rhai rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

Atodiad I:
Crynodeb o'r Data Cenedlaethol

Rhanbarth	Enw'r Asiantaeth	Cyswllt	Swydd	Llywodraethu	Ffôn	Ebost	Partn. Bresennol gyda'r Gwas. Tân	Maint yr Asiantaeth (cleientiaid) *	Cyfans wm y Staff
Y De									
1	Blaenau Gwent	Sally Rivers	Prif Swyddog	Cym. Dd a D	01495 321 091	Sally.Rivers@blaenaugwentcareandrepair.co.uk	B	1075	14
2	Pen-y-bont ar Ogwr	Rena Sweeney	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym. Dd a D	01656 648417	rena.sweeney@bridgendcareandrepair.co.uk	B	1877	20
3	Caerffili	Pat Jones	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	01495 235393	pat.jones@caerphillycr.co.uk	B	1157	9
4	Caerdydd	Richard Thomas	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	02920 473337	Richard.thomas@ccha.org.uk	D	1818	22
5	Casnewydd	Phillip Arnold	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01633 233887	Phil.arnold@fairlake-properties.co.uk	B	1719	10
6	Rhondda Cynon Taf	Sylvia Cooper	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01443 755696	scooper@careandrepair-rct.org.uk	B	3261	18
7	Torfaen	Nicola Maule	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	08453 101180	nicola.maule@crtorfaen.co.uk	B	1181	6
8	Merthyr	Ann Lewis	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	01685 723771	ann.lewis@merthyrcareandrepair.co.uk	A	714	11
9	Sir Fynwy	Shona Martin	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01873 854195	smartin@crmon.org.uk	B	1515	12
10	Bro Morgannwg	Janet Salter	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01446 704308	Janet-salter@newydd.co.uk	D	1640	9
Y Canolbarth a'r Gorllewin									
1	Sir Gâr	Mark Warren	Rheolwr yr Asiant.	Cym Dd a D	01554 744300	mwarren@cccpartners.org.uk	B	748	10
2	Ceredigion	Dafydd Pugh-Jones	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01970 639920	Dafyddpj@cantref.co.uk	CH	570	12
3	Sir Benfro	Tina Mills	Rheolwr yr Asiant.	Is-g. Annib.	01437 766717	Tina.mills@pembs-ha.co.uk	B	1367	10
4	Powys	Sally Davison	Cyfarwydd. yr Asiant.	Is-g. Annib.	01597 824040	sdavison@crpowys.co.uk	B	1223	18
5	Castell-nedd Port Talbot	Bernard Cooper	Cyfarwydd. yr Asiant.	Cym Dd a D	01792 321122	Bernard@nptcarerepair.co.uk	B	1519	24
6	Abertawe	Maggie Berrry	Cyfarwydd yr Asiant.	Cym Dd a D	01792 798599	director@swanseacareandrepair.co.uk	B	3153	19
Y Gogledd									
1	Sir y Fflint	Geraint Humphreys	Cyd-lynydd y Gwasanaeth	Cym Dd a D	01352 758700	geraint.humphreys@flintshirecr.co.uk	B	1648	10
2	Gwynedd	Elfyn Owen	Rheolwr yr Asiant.	Is-g. Annib.	01766 510160	elfyn@gofalathrwsio.org	CH	1657	18
3	Wrecsam	Yvonne Jones	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01978 268120	yvonne.jones@tyglas.co.uk	B	2368	8
4	Ynys Môn	Ceri Thomas	Cyd-lynydd y Gwas.	Is-g. Annib.	01248 750625	ceri@gathmon.org	D	1376	11
5	Sir Ddinbych	Lynda Colwell	Rheolwr yr Asiant.	Rheolir gan Cym. Tai	01745 814484	Lynda.colwell@taiclwyd.com	B	829	7
6	Conwy	Nicola Eccles	Cyd-lynydd y Gwas.	Rheolir gan G a Th Cym.	01492 545500	Nicola.eccles@conwycareandrepair.org.uk	B	591	7

Allwedd: *Partneriaeth bresennol gyda'r Gwas.Tân* = Y ffordd y mae'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio'n cydweithio â'u Gwasanaethau tân ac Achub

A Staff yr Asiantaeth yn darparu taflenni i gleientiaid ac yn ei annog i drefnu i gael Archwiliad neu i gael rhagor o wybodaeth gan y Gwas Tân.

B Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas.Tân, a fydd wedyn yn darparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau eu hunain.

C Staff yr Asiantaeth yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwas. Tân, ac yna Staff yr Asiantaeth a'r Gwas. Tân yn cyfarfod cleientiaid ar y cyd i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac Archwiliadau.

CH Staff yr Asiantaeth angen arweiniaid a/neu hyfforddiant gan y Gwas. Tân, yn trosglwyddo gwybodaeth gan y Gwas. Tân, ac yn cynnal Archwiliadau (yn cynnwys gosod larymau mwg)

D Math arall o drefniant

Caerdydd = yr asiantaeth yn gosod larymau mwg, ond yn atgyfeirio achosion mwy 'cymhleth' i Was. Tân y De e.e. pobl â nam ar eu clyw

Ynys Môn = yr asiantaeth yn atgyfeirio i sefydliad arall (Canolfan Mona), a fydd yn cynnal yr Archwiliad ac yn adrodd yn ôl i Was. Tân y Gogledd

Bro Morgannwg = yr asiantaeth yn gosod larymau mwg a ddarperir gan Was. Tân y De, ond nid ydynt yn atgyfeirio unrhyw achosion

Trefn lywodraethol: **Cym Dd a D** – Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus **Cym. Tai** – Cymdeithas Tai **Is-g. Annib.** – Is-gwmni annibynnol

**Cafwyd o adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn (2008/09) a ddarparwyd i Gofal a Thrwsio Cymru gan bob Asiantaeth, ac a gasglwyd ac yr adroddwyd yn eu cylch i Lywodraeth y Cynulliad.*

Atodiad II:

Cwestiynau draft / Syniadau ar gyfer Mapio'r Drefn gyda Gofal a Thrwsio

1. Enw'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio, rhif ffôn ac e-bost.	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
2. Enw cyswllt a theitl swydd	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
3. Trefn lywodraethol / statws yr asiantaeth (e.e. elusen, cymdeithas dai, ayyb)	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
4. Maint yr asiantaeth (nifer y cleientiaid sydd ganddynt)	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
5. Ydi'r asiantaeth yn cynnig gwasanaeth 'Archwiliad Iechyd Cartref'? *(Atal Tân i weld a yw Prif Swyddog yr Asiantaeth yn barod i rannu eu rhestr 'cyswllt cyntaf' / Archwiliad Iechyd Cartref gyda ni?)*	YDI Os felly, tua faint ohonynt y mis ____ NAC YDI Beth, os o gwbl, yw'r elfen ddiogelwch tân sy'n cael ei gynnwys ynddynt?
6 Cyfanswm nifer y staff llawn a rhan amser	____ llawn amser ____ rhan amser ____ cyfwerth â llawn amser *Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
7. Nifer y staff sy'n gyfwerth â llawn amser sy'n ymwneud ag asesiadau/ymweliadau cartref	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
8. Nifer y staff sy'n gyfwerth â llawn amser sy'n ymwneud â gweithgareddau cynnal a chadw cartrefi	*Gwybodaeth o'r system ddata ganolog*
9. Ydi'r asiantaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân ac Achub ar hyn o bryd i wella diogelwch yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrwsio? Os felly, pa un o'r isod fyddai'r disgrifiad gorau o'r math o bartneriaeth? Gallwch roi tic mewn mwy nag un blwch os ydych yn cydweithio â'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn sawl ffordd. Rhowch ragor o fanylion yn y blwch ar y dde.	
A. ☐ Mae ein staff yn rhoi taflenni gan y Gwasanaeth Tân ac Achub i gleientiaid, ac yn eu hannog i ofyn am yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref neu gael rhagor o wybodaeth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub - Tua faint o daflenni y byddwch yn eu dosbarthu bob mis? Faint o gleientiaid a dybiwch chi sydd, o ganlyniad i'r taflenni, yn ceisio rhagor o wybodaeth neu Archwiliad Diogelwch	

Tân yn y Cartref?	
B. ☐ Mae ein staff yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a fydd wedyn yn darparu cyngor, gwybodaeth ac ymweliadau Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref i'r cleientiaid eu hunain. - A fyddwch chi'n cael caniatâd uniongyrchol gan gleientiaid i rannu eu manylion? Oes gennych chi gytundeb rhannu data gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub? - Tua faint o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref fydd yn cael eu cynnal bob mis o ganlyniad i hyn?	
C. ☐ Mae ein staff yn cael caniatâd cleientiaid i rannu eu manylion gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a byddwn yn cyfarfod y cleient ar y cyd â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, er mwyn rhoi cyngor, gwybodaeth a chynnal ymweliadau Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref. - A fyddwch chi'n cael caniatâd uniongyrchol cleientiaid i rannu eu manylion? Oes gennych chi gytundeb rhannu data gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub? - Tua faint o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref fydd yn cael eu cynnal bob mis o ganlyniad i hyn?	
CH. ☐ Byddwn yn derbyn arweiniad a/neu hyfforddiant gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, yn trosglwyddo gwybodaeth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac yn cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (yn cynnwys gosod larymau mwg) ac yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân ac Achub am y cartrefi yr ydym wedi eu harchwilio. - Tua faint o archwiliadau/gosod larymau mwg fyddwch chi'n eu gwneud bob mis? - A fyddwch chi'n dilyn yr un drefn â'r Gwasanaeth Tân ac Achub? Ydyn nhw'n rhoi hyfforddiant a/neu gefnogaeth yn hyn o beth? - A fyddwch chi'n rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân am archwiliadau/gosod larymau mwg, a sut?	Sefydlu beth yw cynnwys 'Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref' yr asiantaeth, gan gyfeirio at yr Elfennau o'r Archwiliadau a ddarperir gan y Gwasanaeth Tân: • Asesiad Risg • Cyngor ynglŷn â lleihau risg • Gosod larymau mwg • Cyngor ynglŷn â diangfeydd Faint o staff yr asiantaeth sydd eu hangen i gynnal Archwiliad? (h.y. a oes amod/argymhelliad fod angen mwy nag 1 aelod o staff yn bresennol)? Os gosodir larymau mwg, o le daw'r larymau hynny?
D. Unrhyw fath arall o drefniant	

partneriaeth (rhowch ddisgrifiad)	
10. Enw(au)'r sawl y byddwch yn cysylltu â nhw yn y Gwasanaeth Tân ac Achub (enw, teitl swydd, lleoliad, rhif ffôn) *Dylid cynnwys manylion pob enw cyswllt os oes rhai gwahanol ar gyfer gwahanol bartneriaethau (A – D uchod)*	Nodwch unrhyw gytundebau ffurfiol rhwng yr asiantaeth a'r Gwasanaeth Tân ac Achub, e.e. memorandwm cyd-ddealltwriaeth ayyb.

Cwestiynau Atodol i'r asiantaeth sy'n ateb 'Ch' uchod:

- Os ydych chi wedi gweithio mewn partneriaethau gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, beth weithiodd yn dda, beth na weithiodd gystal?

  - e.e. enghreifftiau da o femorandwm o gyd-ddealltwriaeth, offer gwerthuso, hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, adborth cadarnhaol gan gleientiaid, ayyb.

  - e.e. gallai'r cyfathrebu fod yn well, nid oedd y prosesau monitro a gwerthuso yn effeithiol, dim digon o staff i wneud y gwaith, angen rhagor o hyfforddiant/arweiniad gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- A fyddai eich asiantaeth yn gallu/yn barod i gymryd rhan mewn partneriaeth gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y dyfodol, naill ai trwy fenter newydd, parhau â'r gwaith a wneir eisoes, neu ehangu'r gwaith hwnnw (e.e. trwy fynd o "A" i "B" neu o "B" i "C" uchod?)

- Beth fyddai ei angen i alluogi hyn i ddigwydd? Beth allai fod yn rhwystr?

- Faint o staff sydd wedi cael hyfforddiant i gynnal Archwiliadau?

Atodiad III:

Map Enghreifftiol Drafft o'r Broses Atgyfeirio



Elusen gofrestredig yw Atal Tân Cymru / Firebrake Wales. Ein cenhadaeth yw gostwng nifer yr achosion o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau trwy godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, hybu ymchwil i ddiogelwch tân, ac annog cydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a hynny er mwyn gwneud Cymru yn lle mwy diogel.

Rydym yn cydweithio'n agos â'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i gefnogi mentrau diogelwch tân, ac i annog gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau trwy Gymru.

Am ragor o wybodaeth, neu i dderbyn fersiwn electronig neu gopi o'r adroddiad hwn yn y Gymraeg neu brint bras, cysylltwch â ni ar: 01633 654000, ffacs: 01633 654001 neu info@firebrake.org